Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

# Cam-drin domestig yng Nghymru

Rhagfyr 2008

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.assemblywales.org

I gael rahgor o gopiau called o'r ddogfen hon cystlltwch â:

Annette Millett
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8429
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: pwyllgor.cymunedau@wales.gsi.gov.uk

# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant



Janice Gregory
Cadeirydd
Ogwr



Peter Black
Gorllewin De Cymru



Paul Davies
Preseli Sir Benfro



Nerys Evans
Canolbarth a
Gorllewin Cymru




Lesley Griffiths
Wrecsam



Mark Isherwood
Gogledd Cymru



Dai Lloyd
Gorllewin De Cymru



Lynne Neagle
Tor-faen



Joyce Watson
Canolbarth a
Gorllewin Cymru

**Cynnwys**


| Adran | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair y Cadeirydd | 2 |
| | | |
| 1 | Cyflwyniad | 4 |
| | | |
| 2 | Cylch Gorchwyl | 4 |
| | | |
| 3 | Cefndir yr ymchwiliad | 4 |
| | | |
| 4 | Cam-drin Domestig yng Nghymru – y Fframwaith Deddfwriaethol | 7 |
| | | |
| 5 | Tystiolaeth | 10 |
| | | |
| 6 | Materion Allweddol | 11 |
| | | |
| 7 | Argymhellion | 53 |
| | | |
| Atodiad 1 | Sefydliadau ac unigolion a gyflwynodd dystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor | 62 |
| | | |
| Atodiad 2 | Rhestr o Bapurau'r Pwyllgor | 66 |
| | | |
| Atodiad 3 | Y Rhai a Ymatebodd i'r Alwad am Dystiolaeth Ysgrifenedig | 67 |
| | | |
| Atodiad 4 | Ymweliadau'r Pwyllgor | 70 |
| | | |
| Atodiad 5 | Galwad am Dystiolaeth | 71 |
| | | |
| Atodiad 6 | Rhestr o Dermau | 73 |

## Rhagair y Cadeirydd

Er mis Ebrill, mae ein hymchwiliad i gam-drin domestig, a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael yng Nghymru, wedi derbyn tystiolaeth oddi wrth groestoriad o bobl a sefydliadau, a hefyd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Hoffwn ddiolch i'r holl dystion hynny sydd wedi rhoi o'u hamser i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i'r goroeswyr cam-drin domestig, gan gynnwys preswylwyr llochesau, a ganiataodd i Aelodau'r Pwyllgor ymweld â nhw ac a roddodd eu barn i ni.

Amcangyfrifir y bydd trais domestig yn effeithio ar 1 ym mhob 4 menyw ac 1 ym mhob 6 dyn yn eu hoes, ac mai menywod yw oddeutu 85% o ddioddefwyr trais domestig. Mae'n rhaid i ni fod yn bwyllog ag ystadegau, fodd bynnag, gan fod natur cam-drin domestig yn golygu y credir yn eang ei bod yn drosedd sy'n digwydd yn amlach na'r achosion y rhoddir gwybod amdanynt. Rydym yn ymwybodol bod yna straeon y tu ôl i'r ffigyrau am bobl y mae cam-drin yn tynnu eu bywydau'n gareiau, ac am y rheini sy'n gweithio i'w helpu i ddianc ac i gael eu cefn atynt. Mae cam-drin domestig yn cynnwys nid yn unig trais corfforol ond hefyd cam-drin emosiynol, seicolegol ac/neu ariannol, ac ynysu oddi wrth ffrindiau, teulu neu ffynonellau cymorth eraill posibl. Mae'n falltod cudd ar ein cymdeithas a all effeithio ar *unrhyw un*.

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth a oedd yn peri pryder ynglŷn ag agweddau cyffredinol tuag at drais a cham-drin yn ein cymdeithas, gan gynnwys yr hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei hystyried yn berthynas ddiogel ac iach. Mae angen i bob un ohonom chwarae ein rhan mewn 'torri cyfrinach' cam-drin domestig, ac mewn newid agweddau. Thema gref sy'n dod i'r amlwg o'r ymchwiliad yw'r angen i wneud llawer mwy o waith ymyrryd cynnar a chodi ymwybyddiaeth. Mae'n rhaid i ymyriad mewn argyfwng fod yn gyflym, yn ymatebol ac yn briodol i anghenion dioddefwyr bob amser, ond mae'n rhaid i ni wneud popeth yn ein gallu i atal plant heddiw rhag dod yn ddioddefwyr yfory pan fyddant yn oedolion, ac i dorri unrhyw gylchdro cam-drin.


Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru strategaeth trais domestig yn 2005 â'r bwriad o ddarparu'r 'sylfeini' strwythurol i ymyriadau cam-drin domestig uniongyrchol ledled Cymru. Mae cwmpas eang ymchwiliad y Pwyllgor wedi caniatáu i ni archwilio cryfderau a gwendidau'r strategaeth honno, ac i wneud rhai argymhellion cadarn ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wneud.

Rydym wedi cwmpasu llawer o agweddau ar gam-drin domestig yn ystod yr ymchwiliad hwn, gan gynnwys effaith ynysu y mae ffactorau daearyddol, diwylliannol ac unigol yn ei gwaethygu. Rydym hefyd wedi darganfod bylchau yn y cymorth sydd ar gael ac sy'n hygyrch ar gyfer gwahanol grwpiau. O ganlyniad, ar rai adegau ac mewn rhai ardaloedd, nid yw grwpiau penodol fel dynion, menywod, plant, pobl o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl hŷn, pobl anabl a gofalwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r Pwyllgor wedi gweld rhai enghreifftiau rhagorol o gydweithio i fynd i'r afael â cham-drin domestig yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod yr *holl* drefniadau aml-asiantaeth yn gweithio'n effeithiol a bod gwybodaeth bwysig yn cael ei rhannu i sicrhau'r ymateb gorau ym *mhob* achos. Ym mhob rhan o Gymru, mae angen cyfeiriad strategol eglur arnom. Rhaid i ni osgoi ar bob cyfrif y canfyddiad ymhlith rhai darparwyr yn y sector gwirfoddol eu bod yn treulio amser ac adnoddau gwerthfawr ar 'siopau siarad', yn hytrach nag ar y dioddefwyr maent yn gweithio gyda nhw.

Mae ariannu craidd yn hollbwysig i lwyddiant strategaethau cam-drin domestig. Mae yna ymyriadau arloesol ac effeithiol ledled Cymru, ond nid yw’r rhain yn gynaliadwy os ydynt yn dibynnu ar elusen a cheisiadau ariannu lluosog am wahanol gronfeydd arian. Mae’r problemau hyn yr un fath â’r problemau a godwyd yn adroddiad blaenorol y Pwyllgor – ‘Ariannu Sefydliadau’r Sector Gwirfoddol yng Nghymru’. Rhaid mynd i’r afael â materion ariannu, yn enwedig pan mae bywydau pobl mewn perygl.

Ar ran y Pwyllgor, rwy’n ddiolchgar i’r holl unigolion a sefydliadau hynny a roddodd i ni ffrwyth eu profiad a’u cyngor; mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol, yn ystod ymweliadau, neu drwy ymateb i’n galwad am dystiolaeth. Hoffwn hefyd ddiolch i Aelodau’r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant am eu hymroddiad cryf i’r ymchwiliad hwn.

Rwy’n rhagweld y bydd llawer iawn o bobl yn darllen ein hadroddiad, ac rwy’n gobeithio y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru’n derbyn ein hargymhellion.  Rwy’n edrych ymlaen at dderbyn ei hymateb maes o law.



**Cadeirydd, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant**

## 1. Cyflwyniad

Dechreuodd ymchwiliad y Pwyllgor i gam-drin domestig yng Nghymru gymryd tystiolaeth ym mis Ebrill 2008, ac mae wedi casglu ystod eang o safbwyntiau ar weithgareddau i fynd i'r afael â cham-drin domestig ac i gefnogi'r rheini y mae'n effeithio arnynt. Manylir ar gylch gorchwyl a chefndir yr ymchwiliad isod. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud 28 argymhelliad strategol ac wedi gosod amserlenni ar gyfer eu rhoi ar waith. Mae hyn yn adlewyrchu pa mor bwysig ydyw i weithredu'n ddi-oed yn y maes polisi hwn ym marn yr Aelodau. Gallai canlyniadau unrhyw fethiant yn y ddarpariaeth gwasanaeth i'r rheini y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt fod yn ddifrifol o ran eu gallu i ddianc o sefyllfa dreisiol a symud ymlaen yn bositif yn eu bywydau. Mae'r Pwyllgor yn dymuno gweld pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau ein bod yn helpu dioddefwyr cymaint â phosibl, ac i newid agweddau yng Nghymru sy'n caniatáu i gam-drin o'r fath ddigwydd.

## 2. Cylch gorchwyl

Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl eang ei gwmpas a ganlyn ar gyfer ymchwiliad i gam-drin domestig ym mis Mawrth 2008:

Cynigir y dylai'r pwyllgor adolygu:

- Y modd y caiff strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig ei chyflawni;
- Y cymorth a ddarperir i'r sawl sy'n dioddef cam-drin domestig, gan gynnwys y cymorth a ddarperir i dystion yn y system cyfiawnder troseddol;
- Yr adnoddau a ddyrennir gan gyrff perthnasol megis Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Swyddfa Gartref, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol i weithredu polisïau cam-drin domestig;
- Yr ymyriadau gorfodol a gwirfoddol a ddarperir sydd wedi'u hanelu at y sawl sy'n cyflawni'r cam-drin domestig; gan gynnwys darparu adnoddau angenrheidiol i gefnogi ymyriadau o'r fath;
- Cynlluniau sydd wedi'u hanelu at atal cam-drin domestig; er enghraifft, rhaglenni ysgolion a chynlluniau codi ymwybyddiaeth.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn:

- Gwneud argymhellion o ran y camau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem o gam-drin domestig yng Nghymru.

## 3. Cefndir yr ymchwiliad

### Cam-drin domestig

3.1 O ystyried natur cam-drin domestig sy'n aml yn gudd, nid yw amcangyfrifon ystadegol o'i gyffredinrwydd, sydd wedi'u seilio ar gofnodion yr asiantaethau cyfiawnder troseddol, yn rhoi gwir adlewyrchiad o'r broblem. Mae ymchwil yn awgrymu bod cam-drin domestig yn drosedd

sy'n digwydd lawer iawn yn amlach na'r achosion y rhoddir gwybod amdanynt i'r heddlu, ac mai cyfran fach yn unig o ddigwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt i'r heddlu sy'n arwain at gollfarnu'r tramgwyddwr. Mae yna dystiolaeth hefyd i awgrymu bod dioddefwyr yn annhebygol o roi gwybod am eu profiadau mewn arolygon troseddu cyffredinol wyneb-yn-wyneb, fel Arolwg Troseddu Prydain (BCS). Roedd cyfraddau cyffredinrwydd ar gyfer trais domestig a ddeilliodd o fodiwl hunan-gwblhau BCS 2005/06 oddeutu bum gwaith yn uwch ar gyfer oedolion na'r rheini a gafwyd o'r cyfweliadau wyneb-yn-wyneb arferol. Yn ôl dadansoddiad o Fodiwl Hunan-Gwblhau Arolwg Troseddu Prydain 2005/06[1]*:*

- Ers yn 16 oed, roedd 22 y cant o ddynion a 33 y cant o fenywod wedi cael profiad o o leiaf un achos o gam-drin domestig. Roedd hyn yn cynnwys cam-drin nad oedd yn gorfforol (emosiynol neu ariannol), bygythiadau, ymosodiad rhywiol neu stelcio gan bartner, cyn-bartner neu aelod o'r teulu.
- Roedd camdriniaeth partner neu'r teulu'n digwydd amlaf ymhlith pobl dan 24 oed, ac roedd yn lleihau wrth i bobl fynd yn hŷn.
- Roedd achosion o gamdriniaeth partner yn digwydd yn amlach i fenywod mewn iechyd gwael nag i fenywod mewn iechyd da.
- Roedd achosion o gamdriniaeth partner neu'r teulu'n digwydd yn amlach i fenywod oedd â phlant nag i fenywod heb blant ac i ddynion â phlant neu heb blant.
- Roedd perchen-feddianwyr yn llai tebygol o gael profiad o gamdriniaeth partner. Roedd lefelau camdriniaeth partner neu'r teulu'n uwch na'r cyfartaledd i ddynion a menywod yn y sector tai cymdeithasol ar osod.
- Roedd pobl a oedd yn ymweld â'r dafarn deirgwaith neu fwy yr wythnos yn fwy tebygol o gael profiad o gamdriniaeth partner. Roedd menywod a oedd yn ymweld â'r dafarn deirgwaith neu fwy yr wythnos yn fwy tebygol o gael profiad o gamdriniaeth y teulu, ond yn yr achos hwn nid oedd hyn yn wir am ddynion.

Mae darganfyddiadau *Crime in England and Wales 2007-08*[2], sy'n ymgorffori darganfyddiadau BCS a throseddau y rhoddir gwybod amdanynt i'r heddlu, yn awgrymu:

- Bod achosion o ddioddef camdriniaeth drosodd a thro yn cyfrif am 73 y cant o'r holl achosion o drais domestig fel mae'r BCS yn ei fesur. Roedd mwy nag un ym mhob 4 (27%) o ddioddefwyr trais domestig wedi dioddef trais deirgwaith neu fwy. (Mae darganfyddiadau o fodiwlau BCS 2004/05 yn dangos bod 22 y cant o ddioddefwyr camdriniaeth partner wedi'u cam-drin 6 gwaith neu fwy yn y flwyddyn flaenorol, gyda 7 y cant wedi'u cam-drin mwy na 50 gwaith)
- Roedd 33 y cant o ddigwyddiadau treisiol yn erbyn menywod yn drais domestig, o'i gymharu â 4 y cant o ddigwyddiadau yn erbyn dynion
- Yn y mwyafrif o achosion, menywod oedd dioddefwyr trais domestig (85%)

[1] Swyddfa Gartref, *Homicides, Fire Arm Offences and Intimate Violence 2006/07*, Ionawr 2008
[2] Bwletin Ystadegol y Swyddfa Gartref, *Crime in England and Wales 2007-08:* **http://www.homeoffice.gov.uk/rds/index.html**

Er bod yr ystadegau hyn yn gyfyngedig o ran y graddau y gallant roi gwir ddarlun o gyffredinrwydd cam-drin domestig, maent yn dangos natur ddifrifol a chyffredin y broblem.

**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru**

3.2 Mae'r amgylchiadau y mae cam-drin domestig yn digwydd ynddynt, a'r camau y gellir eu cymryd i gefnogi'r bobl mae'n effeithio arnynt, neu i'w atal rhag digwydd, yn gymhleth ac yn eang eu cwmpas. Mae'r fframwaith deddfwriaethol, a amlinellir yn mhennod 4, yn ymgorffori cyfreithiau a wneir yn Ewrop a chan senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw agweddau pwysig ar ddeddfwriaeth wedi'u datganoli, gan gynnwys llawer o'r system cyfiawnder troseddol a'r system llys sifil. Fodd bynnag, gall Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu, a chyfarwyddo, mewn nifer o feysydd, nid yn unig trwy bwerau deddfwriaethol ond hefyd trwy benderfyniadau ariannu a thrwy gyhoeddi cyngor a chyfarwyddyd.

3.3 Cynhyrchwyd *Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan*[3] gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005. Mae canolbwynt y Strategaeth ar gam-drin domestig, yn hytrach nag ar drais domestig, yn mynd y tu hwnt i drais corfforol yn unig. Mae hefyd yn cynnwys cam-drin emosiynol, dinistrio eiddo, ynysu oddi wrth ffrindiau, y teulu neu ffynonellau cymorth posibl eraill, bygythiadau i eraill gan gynnwys plant, rheolaeth dros fynediad at arian, eitemau personol, bwyd, cludiant a'r ffôn, a stelcio. Prif amcan y strategaeth yw darparu'r 'sylfeini' strwythurol ar gyfer ymyriad uniongyrchol yn achos cam-drin domestig ledled Cymru. Ei nod yw hwyluso datblygu a gweithredu dull 'cydgysylltiedig', yn seiliedig ar ddatrys problemau, o fynd ati i ddelio â cham-drin domestig mewn modd cyfannol. Cynhyrchwyd y Strategaeth mewn cydweithrediad ag Aelodau'r Gweithgor ar Drais Domestig a Thrais yn erbyn Menywod.

3.4 Nodau cyffredinol y strategaeth yw:

- Hwyluso datblygu a gweithredu ymateb safonol gan asiantaethau ar y cyd sydd wedi'i gydgysylltu
- Gwella'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd i ddioddefwyr a chynyddu yn arbennig y dewisiadau diogel sydd ar gael i fenywod a phlant a phobl ifanc sy'n profi cam-drin domestig
- Dwyn y rheini sy'n cam-drin i gyfrif am eu hymddygiad
- Gwneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r materion sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig
- Herio'r syniad bod cam-drin domestig yn dderbyniol
- Amddiffyn plant a phobl ifanc yng Nghymru rhag effaith negyddol cam-drin domestig
- Rhoi addysg a gwybodaeth i blant a phobl ifanc i'w galluogi i wneud dewisiadau cytbwys

---

[3] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan*, 2005: **http://new.wales.gov.uk/dsjlg/publications/commmunitysafety/domesticabusestrategy/strategyw.pdf?lang=cy**

3.5  Mae'r Strategaeth yn argymell y dylai nifer o asiantaethau unigol a chyrff sy'n bartneriaid, gan gynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Fforymau Cam-drin Domestig a Phwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant, fynd i'r afael â cham-drin domestig a'r pethau sy'n ei achosi.

**Penderfyniad y Pwyllgor i ymgymryd â'r ymchwiliad hwn**

3.6  Ym mis Mawrth 2007, bu Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Ail Gynulliad yn craffu ar Edwina Hart, Gweinidog perthnasol y Cynulliad ar y pryd, o ran y cynnydd â chyflenwi'r strategaeth. Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd wrth gyflenwi'r Strategaeth[4], a ddygodd sylw at ddatblygiad sylweddol yn nhermau darparu ariannu i alluogi pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yng Nghymru i benodi cydgysylltydd cam-drin domestig.

3.7  O ystyried yr angen tyngedfennol am waith effeithiol i fynd i'r afael â cham-drin domestig yng Nghymru, a'r gwaith craffu cychwynnol a wnaed gan y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn ystod y Cynulliad diwethaf, a fu'n canolbwyntio ar Strategaeth cam-drin domestig Llywodraeth y Cynulliad, penderfynodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2008 i ymgymryd ag ymchwiliad eang ei gwmpas i gam-drin domestig yng Nghymru.

## 4. Cam-drin domestig yng Nghymru – y fframwaith deddfwriaethol

### Trosolwg

4.1  Mae'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi gweithredu i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn eang ei gwmpas ac yn gymhleth, gan ymgorffori cyfreithiau a wneir yn Ewrop a chan senedd y DU a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Cyfraith trosedd

4.1.1  Nid yw 'cam-drin domestig' yn drosedd benodol dan gyfraith trosedd. Efallai y bydd y rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig yn cael eu collfarnu o droseddau fel ymosodiad, aflonyddiad, ymgais i lofruddio neu lofruddiaeth. Ar ben hyn, mae deddfwriaeth benodol yn ei gwneud yn drosedd mynd â menyw dramor at ddibenion anffurfio'i horganau rhywiol[5] ac yn galluogi llysoedd i wneud gorchmynion i amddiffyn dioddefwyr neu ddioddefwyr posibl priodas dan orfod[6].

4.1.2  Mae'r system cyfiawnder troseddol hefyd yn ceisio mynd i'r afael â cham-drin domestig trwy ddarparu ar gyfer cefnogi ac amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig sy'n

[4] Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio SJR(2)-05-07(t.2)  22 Mawrth 2007 *Domestic Abuse Strategy - Progress on Delivery:* **http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-second/bus-committees-second-sjr-home/bus-committees-second-sjr-agendas/1d0234307c3f671ec364188bfd84a98f.pdf?langoption=3&ttl=SJR%282%29-05-07%20Paper%202%20%3A%20Domestic%20Abuse%20Strategy**

[5] *Deddf Anffurfio Organau Rhywiol Menywod (2003)*
[6] *Dan Ddeddf Priodas dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007*

dystion mewn achosion troseddol. Er enghraifft, mae *Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999,* sy’n darparu ar gyfer amddiffyn tystion rhag cael eu croesholi gan ddiffynnydd heb gynrychiolaeth mewn rhai amgylchiadau penodol, a *Deddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr (2004)* yn cynnwys ystod o fesurau gan gynnwys gorchymyn “cadw draw” i rai sydd wedi’u collfarnu o drais domestig.

**Cyfraith sifil**

4.1.3 Yn ogystal â’r system cyfiawnder troseddol, mae system sifil yn cynnig amddiffyniad i ddioddefwyr trwy, er enghraifft, eu galluogi i geisio gwaharddeb oddi wrth naill ai’r Llys Achosion Teuluol neu Lys Sirol; a system droseddol sydd â’r nod o gosbi’r tramgwyddwr trwy naill ai’r Llys Ynadon neu Lys y Goron.

**Cyfyngiadau’r systemau cyfreithiol troseddol a sifil**

4.1.4 Ceir cryn ddadl ynghylch effeithiolrwydd y systemau cyfreithiol troseddol a sifil hyn wrth fynd i’r afael â cham-drin domestig, a mynegodd sawl cyfrannwr at Ymchwiliad y Pwyllgor bryderon ynglŷn â’r anawsterau y mae dioddefwyr yn eu hwynebu wrth ‘gyrchu cyfiawnder’. Er enghraifft, mae Cymorth i Fenywod Cymru’n amcangyfrif mai 23% yn unig o fenywod sy'n rhoi gwybod am achosion o gam-drin domestig i'r heddlu[7]. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â'r lefel isel o hyd o gollfarnau llwyddiannus, ac ynglŷn â gallu’r system cyfiawnder troseddol i ddiwallu anghenion rhai grwpiau penodol o bobl, fel pobl hŷn â demensia a merched o gymunedau neu gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

**Dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus**

4.1.5 Mae cydran bwysig arall o fframwaith deddfwriaeth cam-drin domestig yn ymwneud â dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus. Mae llu o ffactorau’n effeithio ar ymdrechion i gefnogi pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, ac i’w atal. Felly mae yna beth wmbredd o ddeddfwriaeth dan sylw sy’n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cyhoeddus nodi a diwallu anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion, yn nhermau darpariaeth gwasanaethau cyffredinol ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, tai ac addysg, ac yn nhermau cyfreithiau sy’n benodol eu cwmpas. Er enghraifft, mae *Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001*[8] yn dweud bod rhywun sy’n ffoi rhag trais domestig neu fygythiad o drais domestig yn dod o fewn categori’r rheini y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiwallu eu hangen am lety.

4.1.6 Yn ogystal â phennu’r mathau o wasanaethau y mae’n rhaid eu darparu, mae’n ofynnol dan ddeddfwriaeth hefyd bod awdurdodau cyhoeddus yn mynd i’r afael â phroblemau amrywiol mewn ffyrdd penodol. Er enghraifft, mae *Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998*, fel y’i diwygiwyd, yn gosod cyfrifoldeb ar bartneriaethau awdurdodau lleol, yr heddlu,

[7] Ymateb ysgrifenedig Cymorth i Fenywod Cymru:
[8] Adran 5

awdurdodau tân a byrddau iechyd lleol i weithio gydag eraill i ffurfio a gweithredu strategaethau lleol ar gyfer lleihau trosedd ac anhrefn a lleihau achosion camddefnyddio sylweddau. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus hefyd i hybu cydraddoldeb a mynd i'r afael â chamwahaniaethu ar gyfer grwpiau penodol o bobl. Mae *Deddf Cydraddoldeb 2006*, er enghraifft, yn gosod 'Dyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol' ar bob awdurdod cyhoeddus i ddileu aflonyddu a gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail rhywedd, ac i hybu cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod. Golyga hyn bod yn rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau rhywiol mwyaf arwyddocaol o fewn eu cylch gwaith. Mae dyletswyddau penodol sydd wedi'u cynnwys yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru wneud trefniadau priodol i sicrhau bod eu swyddogaethau'n cael eu gweithredu gydag ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

**Hawliau Dynol**

4.1.7 Fe gyflwynodd *Deddf Hawliau Dynol 1998* 16 o hawliau sylfaenol – pob un ohonynt wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – i gyfraith ddomestig. Maent yn cynnwys yr hawl i fywyd, yr hawl i beidio â chael eich arteithio, yr hawl i ryddid a diogelwch a'r hawl i barch tuag at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth. Nid yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sef cytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n rhoi set gynhwysfawr o hawliau i'r holl blant a phobl ifanc (17 oed ac iau), wedi'i ymgorffori'n llawn mewn deddfwriaeth ddomestig yn y modd y mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Dynol wedi'i ymgorffori trwy'r Ddeddf Hawliau Dynol.

**Pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

4.1.8 Nid yw'r systemau troseddol a sifil y cyfeirir atynt uchod wedi'u datganoli yn eu hanfod. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn nifer o feysydd perthnasol, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a thai. Er enghraifft, byddai adran 6(2) *Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998* yn galluogi Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n manylu ar amcanion a thargedau i'w gosod ac ar adroddiadau i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol eu paratoi. Mae *Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001*, y cyfeirir ato uchod, yn enghraifft o reoliadau a wnaed dan *Ddeddf Tai 1996*.

4.1.9 Dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael cymhwysedd deddfwriaethol trwy Ddeddfau Seneddol neu Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, sy'n ei alluogi i wneud cyfraith sylfaenol ar ffurf 'Mesur Cynulliad'. Gellir gwneud mesurau yn unig mewn maes polisi penodol (neu 'Fater') wedi'i ychwanegu at un o'r 20 'Maes' (neu feysydd pwnc eang) a gynhwysir yn Atodlen 5 y Ddeddf.

4.1.10 Nid oes unrhyw faes 'Cam-drin Domestig' dan Atodlen 5 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, mae Atodlen 5 yn cynnwys nifer o feysydd y gellid ceisio pwerau gwneud mesur cysylltiedig danynt, e.e.; maes 9 – iechyd a gwasanaethau iechyd; maes 12 – llywodraeth leol; a maes 15 – lles cymdeithasol. Mae sawl Gorchymyn Cymhwysedd

Deddfwriaethol sy'n mynd trwy'r system ar hyn o bryd yn ceisio pwerau y gellid eu defnyddio, pe byddent yn cael eu caniatáu, i fynd i'r afael â cham-drin domestig. Bydd *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008,* er enghraifft, yn rhoi pwerau i'r Cynulliad wneud cyfreithiau mewn nifer o feysydd sy'n gysylltiedig â lles plant.

**5. Tystiolaeth**

5.1 Ymgymerwyd ag ymarfer ymgynghori ysgrifenedig rhwng mis Mawrth a mis Mai 2008. Mewn ymateb, derbyniodd y Pwyllgor fwy na 60 o gyflwyniadau ysgrifenedig yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau a phrofiadau. Mae rhestr o'r sefydliadau a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig wedi'i hatodi yn Atodiad 3.

Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi casglu tystiolaeth fanwl bellach fel a ganlyn:

- Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar oddi wrth gynrychiolwyr sefydliadau a chyrff aml-asiantaeth yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor yng Nghaerdydd, Merthyr a Wrecsam.
- Cymerwyd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig hefyd oddi wrth y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, a'r Dirprwy Weinidogion dros Dai a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Aeth Aelodau ar 3 ymweliad â sefydliadau sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Aeth un Aelod o'r Pwyllgor ar 4 ymweliad rapporteur pellach â sefydliadau sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig a rhywiol.

5.2 Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ystyried ystod eang o safbwyntiau a phrofiadau, cymerwyd tystiolaeth oddi wrth dystion a oedd yn cynrychioli ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau'r sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat. Mae hyn wedi rhoi cipolwg unigryw i'r Pwyllgor ar feysydd, gan gynnwys:

- y modd o ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig mewn amrywiaeth o amgylcheddau;
- cynllunio, comisiynu ac ariannu;
- rôl asiantaethau cyfiawnder troseddol;
- addysg ac ymwybyddiaeth;
- rhaglenni tramgwyddwyr;
- a phrofiadau grwpiau penodol o bobl, er enghraifft, menywod a dynion, plant a phobl ifanc, pobl hŷn a gofalwyr a phobl o gymunedau neu gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae rhestr o'r tystion sydd wedi darparu tystiolaeth lafar wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

5.3 Gofynnwyd i gynrychiolwyr o sefydliadau a gyflwynodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor awgrymu un argymhelliad allweddol a fyddai, yn eu barn nhw, yn cael yr effaith fwyaf i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried yr argymhellion hynny ac wedi eu cadw mewn golwg wrth ffurfio'r argymhellion terfynol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## 6. Materion Allweddol

O ystyried cylch gorchwyl eang yr ymchwiliad, ac ymdrechion y Pwyllgor i gymryd tystiolaeth oddi wrth ystod eang o randdeiliaid, fe gasglwyd beth wmbredd o wybodaeth ac awgrymiadau perthnasol. Mae'r adran hon yn cyflwyno prif ddarganfyddiadau a chasgliadau'r Pwyllgor o fewn wyth maes thematig.

### 6.1 Strategaeth Cam-drin Domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru

6.1.1 Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad *Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan*[9] yn 2005. Diben y strategaeth oedd darparu 'sylfeini' strwythurol ar gyfer ymyriad uniongyrchol yn achos cam-drin domestig ledled Cymru. Nod y strategaeth yw diwallu anghenion pob dioddefwr cam-drin domestig trwy ddarparu cymorth ac amddiffyniad i ddioddefwyr, gwneud tramgwyddwyr yn atebol, ac atal cam-drin domestig rhag digwydd yn y lle cyntaf.

6.1.2 Mae'r diffiniad a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn cyfeirio at gam-drin domestig fel "defnyddio trais neu gam-drin corfforol a/neu emosiynol, gan gynnwys tanseilio hunanhyder, trais rhywiol neu fygwth trais gan berson sydd, neu sydd wedi bod, mewn perthynas agos"[10]. Mae dull y Strategaeth o drin y pwnc yn gynhwysol, gan dderbyn bod "*dynion yn gallu dioddef cam-drin yn y cartref, mai dynion sy'n cyflawni'r rhan fwyaf o ddigon o'r cam-drin yn erbyn menywod a phlant*".

6.1.3 Roedd nifer o gyfranwyr yn canmol ehangder y Strategaeth a'r cyfarwyddyd a gynhwysir ynddi, ond mynegwyd pryderon nad yw'n cael ei gweithredu'n 'llawn ar lawr gwlad'.

6.1.4 Mae cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig wirioneddol yn fater o 'fyw neu farw', ac mae'r Pwyllgor felly o'r farn ei bod yn rhesymol gofyn bod argymhellion ei ymchwiliad yn cael eu rhoi ar waith cyn pen chwe mis, h.y. erbyn mis Mai 2009. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi y cyhoeddwyd strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru gyntaf yn 2005, ac nad oes unrhyw fecanwaith ffurfiol ar gyfer adrodd ar ei chynnydd yn flynyddol. Cynigir felly y dylid cynhyrchu adroddiad blynyddol.

---

[9] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Mynd i'r Afael â Cham-drin yn y Cartref: Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan*, 2005: http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/publications/domesticabusestrategy?lang=cy
[10] Ibid, t.6

**Argymhelliad 1**

Llywodraeth Cynulliad Cymru i adrodd ar gynnydd â rhoi adroddiad ymchwiliad cam-drin domestig y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar waith erbyn mis Mai 2009 ac, wedi hynny, cyhoeddi a chyflwyno gerbron y Cynulliad adroddiad blynyddol ar: effeithiolrwydd ei strategaeth; y cynnydd â'i chynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r Strategaeth ar waith; a sut mae'r Gweinidogion sy'n gyfrifol yng Nghymru'n gweithio gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ar ariannu darpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru.

Dylai'r adrodd gynnwys manylion ynglŷn â meysydd penodol a nodir yn argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant.

6.1.5 Roedd cyfranwyr yn anghytuno rhywfaint ynglŷn â'r diffiniad o gam-drin domestig roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i fabwysiadu, gan gynnwys barn wahanol ar fuddiannau cymharol defnyddio diffiniad o gam-drin domestig sy'n rhyw benodol (â ffocws ar fenywod) neu ddiffiniad nad yw'n rhyw benodol. Er enghraifft, mae Cymorth i Fenywod Cymru'n argymell y dylai ffocws y Strategaeth fod ar drais yn erbyn menywod. Byddai hyn, maent yn dadlau, yn adlewyrchu'n fwy manwl gywir natur cam-drin domestig sydd, yn ei hanfod, yn rhyw benodol, sef trais yn erbyn menywod. Byddai hefyd yn sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar fenywod a phlant. Roedd Amnest Rhyngwladol yn cytuno â'r farn hon, gan ddadlau nad yw'r Strategaeth yn cwmpasu'r gwahanol ffurfiau ar drais yn erbyn menywod yn ddigonol, nac yn cydnabod y cysylltiadau rhwng gwahanol fathau o drais.

6.1.6 Mewn cyferbyniad â hyn, mae cynrychiolwyr Uned Diogelwch Menywod Caerdydd a'r Cynllun Dyn yn dadlau bod diffiniad sy'n cynnwys y ddau ryw yn bwysig i sicrhau bod anghenion dioddefwyr gwrywaidd yn cael eu diwallu, er eu bod yn cydnabod mai menywod yw mwyafrif y dioddefwyr.

6.1.7 Roedd rhai yn teimlo nad oedd y Strategaeth yn cynnwys pob grŵp o bobl. Er enghraifft, mynegodd cynrychiolwyr sefydliadau sy'n canolbwyntio ar bobl hŷn bryder nad yw'r Strategaeth yn adlewyrchu'n ddigonol amgylchiadau dioddefwyr cam-drin domestig hŷn. Argymhellodd Age Concern Cymru y dylid datblygu cynllun gweithredu strategol ar gyfer pobl hŷn, a chynnwys pobl hŷn yn y gwaith o'i lunio, i sicrhau bod strategaeth cam-drin domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael ei rhoi ar waith yn effeithiol. Argymhellodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y dylid estyn diffiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru o gam-drin domestig i gynnwys cam-drin pobl hŷn, nad yw wedi'i gynnwys yn benodol ar hyn o bryd.

6.1.8 Roedd cyfranwyr eraill o'r farn nad oedd y Strategaeth yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion dioddefwyr cam-drin domestig i gael rhywle i fyw, a mynegodd eraill bryderon nad oedd y Strategaeth yn ystyried anghenion menywod nad yw cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt[11].

[11] Mae cyflwyniad ysgrifenedig Amnest Rhyngwladol i'r Pwyllgor yn egluro bod yna gyfyngiadau wedi'u nodi ar fisâu mwyafrif y mewnfudwyr sy'n dod i mewn i'r DU, a'r mwyaf cyffredin o'r rhain yw'r amod na fydd cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt.

6.1.9 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cam-drin domestig yn fater sy'n rhyw benodol o ystyried bod menywod yn fwy tebygol na dynion o ddioddef cam-drin domestig, a bod effeithiau cam-drin domestig yn aml yn wahanol i ddynion a menywod, er enghraifft, oherwydd bod menywod yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi pryderon a fynegwyd gan rai grwpiau menywod bod diffyg diffiniad sy'n rhyw benodol yn arwain at bwysau cynyddol i ddargyfeirio'r adnoddau cyfyngedig sydd wedi'u dyrannu ar hyn o bryd ar gyfer cefnogi gwasanaethau menywod yn unig i wasanaethau cymorth cymysg neu gymorth sy'n ystyried dynion. Mae'r Pwyllgor yn cytuno y dylai darpariaeth gwasanaeth adlewyrchu'r lefelau a'r mathau o angen sy'n amrywio rhwng menywod a dynion a grwpiau eraill o bobl (gweler argymhelliad 6).

6.1.10 Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y gall unrhyw un fod yn ddioddefwr cam-drin domestig neu'n dramgwyddwr, ac mae'n cefnogi dull cynhwysol strategaeth cam-drin domestig Llywodraeth y Cynulliad o drin y pwnc.

6.1.11 Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag Age Concern Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru bod yna le i gryfhau dull cynhwysol y Strategaeth ymhellach o ran pobl hŷn.

**Argymhelliad 2**

Dylai strategaeth cam-drin domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau pobl hŷn yn well trwy sicrhau bod cyhoeddiadau sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn ei gwneud yn eglur bod cam-drin domestig yn effeithio ar bobl hŷn, trwy, er enghraifft, eu modd o ddefnyddio delweddau. Y strategaeth ddiwygiedig i fod ar gael erbyn mis Mai 2009.

6.1.12 Mae'r term 'cam-drin pobl hŷn' yn gyffredinol yn cynnwys cam-drin pobl hŷn gan unrhyw un mewn unrhyw amgylchedd. Yn ogystal â sefyllfaoedd y mae diffiniad Llywodraeth y Cynulliad o gam-drin domestig yn eu cwmpasu ar hyn o bryd, byddai hyn hefyd yn cynnwys cam-drin sy'n digwydd mewn cartrefi gofal neu amgylcheddau canolfannau dydd.

**Argymhelliad 3**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgymryd â gwaith i nodi buddiannau ac effaith bosibl estyn cwmpas ei strategaeth cam-drin domestig i gynnwys cam-drin pobl hŷn gan unrhyw un mewn cartrefi gofal, canolfannau dydd ac amgylcheddau rheoledig eraill.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adrodd ar ei chasgliadau'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Pwyllgor erbyn mis Mai 2009.

6.1.13 Nododd NSPCC Cymru nad yw'r strategaeth gyfredol yn adlewyrchu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sydd wrth wraidd dull Llywodraeth y Cynulliad o drin polisi plant. Mae o'r farn y dylai unrhyw bolisi neu gyfarwyddyd yn y maes hwn yn y dyfodol ddatgan yn eglur bod cam-drin domestig yn tresmasu ar hawliau plant a phobl

ifanc dan Erthygl 19 y Confensiwn, a bod gallu cyrchu cefnogaeth a chymorth ar ôl dioddef cam-drin domestig hefyd yn hawl dan Erthygl 39.

**Argymhelliad 4**

Dylai strategaeth cam-drin domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r holl gyfarwyddyd cysylltiedig, ddatgan yn bendant bod cam-drin domestig yn tresmasu ar hawliau plant a phobl ifanc, a bod gan blant hawl i allu cyrchu cymorth a chefnogaeth ar ôl dioddef cam-drin domestig, sef hawl y manylir arni yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Y strategaeth ddiwygiedig i fod ar gael erbyn mis Mai 2009.

## 6.2 Gwasanaethau a chymorth i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt

6.2.1 Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio, comisiynu ac ariannu gwasanaethau ar gyfer pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn gymhleth, ac yn amrywio dros wahanol rannau o Gymru. Mae mudiadau'r sector gwirfoddol yn darparu cyfran sylweddol o wasanaethau sy'n arbenigo mewn cam-drin domestig, yn annibynnol, (e.e. yn achos darparu lloches), ac mewn partneriaeth â sefydliadau statudol, (e.e. yn achos darparu cymorth trwy'r Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol). Mae gwirfoddolwyr o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys goroeswyr cam-drin domestig, yn chwarae rhan arwyddocaol mewn darparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig. Mae mudiadau'r sector gwirfoddol hefyd yn cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig trwy ddarparu gwasanaethau i bobl sydd ag anghenion sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl neu anghenion cymhleth eraill. Rhoddir sylw i'r problemau sy'n gysylltiedig ag ariannu gwasanaethau'r sector gwirfoddol yn adran 6.6 yr adroddiad hwn.

6.2.2 Mae sefydliadau'r sector statudol yn darparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig trwy amrywiaeth o sianelau, er enghraifft, timau amddiffyn plant a thimau oedolion agored i niwed awdurdodau lleol, gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd y GIG a'r system cyfiawnder troseddol.

6.2.3 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn awgrymu bod yna amrywiadau sylweddol ledled Cymru o ran y trefniadau cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, ac o ran argaeledd a hygyrchedd y gwasanaethau a gynigir.

6.2.4 Roedd cyfranwyr yn cytuno bod angen ystod o wasanaethau sy'n diwallu anghenion unigolion, ac nad yw dull sy'n cynnig yr un ateb i bawb yn briodol. Ymhlith y gwasanaethau y nodwyd eu bod yn hanfodol yn y cymorth maent yn ei ddarparu i ddioddefwyr cam-drin domestig mae:

- Darpariaeth lloches
- Cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n aros yn eu cartrefi eu hunain
- Gwasanaethau tai, gan gynnwys llety camu ymlaen
- Gwasanaeth cwnsela

- Allgymorth / cymorth fel y bo'r angen; mae Prosiect Gobaith Cymdeithas Tai Hafan yn enghraifft dda
- Gwasanaeth cyfeirio, gwybodaeth a chyngor, gan gynnwys gwybodaeth am gyrchu gwasanaethau eraill, cwnsela ar ddyled, a help i gynnal tenantiaethau
- Eiriolaeth, ac yn enwedig y gwasanaethau y mae Eiriolwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn eu darparu
- Gwasanaethau ymosodiad rhywiol ac iechyd rhywiol arbenigol
- Ymyriadau rheoli risg; mae MARAC – Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth yn enghraifft dda ar gyfer rhai grwpiau penodol
- Cymorth a gyflenwir trwy'r system cyfiawnder troseddol; nodwyd bod Llysoedd Sy'n Arbenigo Mewn Trais Domestig ac Eiriolwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn enghreifftiau o arfer da
- Gwasanaethau eraill sy'n darparu 'mynediad at gyfiawnder', er enghraifft, gwasanaethau cyngor cyfreithiol
- Nodwyd bod gwasanaethau o fath 'Siop Un Stop' sy'n gallu delio ag amrywiaeth o anghenion cymorth yn fodelau da o gyflenwi gwasanaeth; roedd Prosiect Pontio Cymorth i Fenywod Cymru a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn enghreifftiau
- Gwasanaethau eraill sy'n helpu pobl i oresgyn rhwystrau rhag dianc o sefyllfa dreisiol; roedd cynllun maethu anifeiliaid anwes yr RSPCA yn enghraifft dda. Mae'r cynllun yn delio â materion lles anifeiliaid, ond mae hefyd yn helpu dioddefwyr a fyddai, fel arall, o bosibl wedi aros yn y cartref oherwydd eu bod yn poeni am ba mor greulon y gallai partner treisiol fod i'w hanifail anwes.

6.2.5 Roedd cyfranwyr yn cytuno y dylai amrywiaeth o wasanaethau fod ar gael i bobl yn ystod yr ymyriad cynnar, yn ystod argyfwng, ac yn ystod yr ymyriad yn dilyn argyfwng. Roeddent hefyd yn cytuno y dylai gwasanaethau fod yn gwbl gynhwysol ac wedi'u cyflunio i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau o bobl, gan gynnwys; menywod; plant a phobl ifanc; dynion; pobl anabl; pobl o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu gymunedau ffydd; pobl hoyw; pobl hŷn; a phobl y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg na'r Saesneg.

6.2.6 Roedd yna gonsensws cyffredinol nad yw'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol yn diwallu'n ddigonol anghenion dioddefwyr cam-drin domestig yng Nghymru. Mae'r consensws hwn yn adlewyrchu darganfyddiadau ymgyrch Atal Trais yn Erbyn Menywod[12], *Map of Gaps: The Postcode Lottery of Violence Against Women Support Services*[13]*.*

6.2.7 Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch yr amrywiad mewn gwasanaethau a ddarperir mewn gwahanol rannau o Gymru, ac ynghylch y nifer annigonol y mae'r gwasanaethau darparu lloches, gwasanaethau cwnsela ac eiriolaeth a llety camu ymlaen yn gallu ymdopi â nhw. Mae darparu lloches preswyl yn hanfodol, ond mae prosiectau sy'n darparu

[12] Clymblaid ymgyrchu o unigolion a sefydliadau yw Atal Trais yn Erbyn Menywod. Mae ei haelodaeth yn cynnwys Rape Crisis, Cymorth i Fenywod, Comisiwn Cenedlaethol y Menywod, Amnest Rhyngwladol y DU, y TUC, darparwyr gwasanaeth ac unigolion sydd wedi dioddef trais domestig: http://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/home.asp
[13] Tudalen 25, *Map of Gaps: The Postcode Lottery of Violence Against Women Support Services Tachwedd 2007* http://www.endviolenceagainstwomen.org.uk/data/files/map_of_gaps.pdf

cymorth yn y cartref i ddioddefwyr cam-drin domestig yr un mor bwysig, ac ni ddylid darparu un math o wasanaeth ar draul un arall.

Dygir sylw at rai enghreifftiau o bryderon penodol ynglŷn â'r mathau hyn o ddarpariaeth isod.

### 6.2.8 Llety lloches

Fe ddarparodd Cymorth i Fenywod Cymru[14] lety i 1,407 o fenywod a 1,228 o blant yn 2007-08. Nid oedd y sefydliad yn gallu darparu ar gyfer 2,766 o geisiadau am lety lloches dros yr un cyfnod, sef cynnydd o 51 y cant ar ffigyrau ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae rhesymau dros wrthod yn cynnwys diffyg gwlâu ar gael ac anghenion personol cymhleth nad oes modd eu diwallu. Galwodd cyfranwyr am ddarpariaeth lloches arbenigol i fenywod ag anghenion penodol, gan gynnwys y rheini ag anghenion cymhleth (e.e. problemau camddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl, a menywod o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu gefndiroedd ffydd). Yn benodol, mae angen darpariaeth lloches ranbarthol ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau, gyda staff arbenigol hyfforddedig 24 awr.

Roedd cyfranwyr yn teimlo nad yw cyfleusterau sy'n cael eu rhannu mewn llochesau'n ddelfrydol, yn enwedig mewn llochesau sy'n cymryd bechgyn hyd at 18 oed. Yn ôl Cymorth i Fenywod Cymru, nid yw 17 o'u 45 o lochesau'n gwbl hygyrch, ac ni fydd 20 o lochesau yn cymryd dynion ifanc dibynnol rhwng 16 a 18 oed.

### 6.2.9 Gwasanaeth cwnsela

Mae pryderon penodol yn ymwneud â diffyg gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, y pellteroedd mae'n rhaid i bobl eu teithio i gyrchu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac amseroedd aros, yn achos y gwasanaethau cwnsela a ddarperir trwy'r GIG (yn nodweddiadol, trwy system atgyfeirio meddygon teulu) ac yn achos y rheini y mae mudiadau'r sector gwirfoddol yn eu darparu.

"Fe gwblhaodd un o'n grwpiau aelodau ymchwil ddwy flynedd yn ôl, ac fe atebodd 25 o'n grwpiau aelodau... roedd yna nifer o anawsterau o ran hygyrchedd gwasanaethau i fenywod â phroblemau iechyd meddwl.... Nid oedd unrhyw wasanaethau cwnsela ar gyfer menywod oedd yn dioddef cam-drin domestig yn eu hardaloedd lleol, ac roedd yna fylchau mewn darpariaeth lloches i fenywod sydd â phroblemau cyffuriau a/neu alcohol. Roedd gan 46 y gant o fenywod a oedd mewn lloches y llynedd broblemau'n ymwneud â cham-drin domestig yn ogystal ag angen cymhleth arall. Mae angen cydnabod hynny. Gall Cymorth i Fenywod eu cefnogi, ond mae gan y gwasanaeth iechyd rôl i'w chwarae hefyd trwy gwnsela. Mae'r rhestr aros ar gyfer gwasanaethau cwnsela'n anferthol yng Nghymru...."

**Cymorth i Fenywod Cymru**

[14] Cymorth i Fenywod Cymru *Adroddiad Ystadegol Blynyddol Ebrill 2007 – Mawrth 2008*

### 6.2.10 Tai a llety

Yn ogystal â’r materion sy’n ymwneud â llochesau, cododd cyfranwyr bryderon hefyd ynglŷn â diffyg llety camu ymlaen i fenywod sengl a menywod â phlant ar ôl iddynt adael y lloches. Ar ben hyn, codwyd pryderon ynglŷn â phrofiadau dioddefwyr sy’n ceisio help oddi wrth adrannau tai awdurdodau lleol, nad ydynt bob amser yn darparu datrysiad i broblem cael rhywle i fyw sy’n cefnogi’n effeithiol rhywun sy’n dioddef effeithiau cam-drin domestig. Lle mae grantiau’n cael eu trefnu ar gyfer pobl i edrych am lety o’r stoc dai breifat, gall problemau godi â dod o hyd i arian ar gyfer bondiau a rhent atodol, ac mae’n well gan lawer fod mewn tai cymdeithasol oherwydd rhenti is.

> “Mae’n anodd iawn dod o hyd i dai unrhyw le, oherwydd yr argyfwng mewn darpariaeth.”
>
> **Lloches Cymorth i Fenywod Aberconwy**

> “Heb y lle yma, mi fuaswn i’n cysgu ar y stryd.”
>
> **Cleient prosiect tai â chymorth ar gyfer menywod ifanc Cymdeithas Tai Hafan**

> **Argymhelliad 5**
>
> Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i werthuso i ba raddau mae’r llety camu ymlaen sydd ar gael, ac sy’n briodol i fenywod a theuluoedd sy’n gadael llochesau, yn diwallu’r angen.
>
> Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod yna strategaethau effeithiol ar waith i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth neu mewn llety camu ymlaen priodol. Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009, ac wedi hynny cynnwys hwn mewn adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

6.2.11 Nodwyd bod ariannu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau craidd yn anghenraid os ydym am ddiwallu’n fwy effeithiol anghenion pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt (gweler adran 6.6). Fodd bynnag, nododd cyfranwyr hefyd ffyrdd eraill o wella’r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig, gan gynnwys:

- Darparu hyfforddiant arbenigol ar gyfer staff sydd eisoes yn gweithio yn y sector cam-drin domestig;
- Recriwtio mwy o wirfoddolwyr i weithio o fewn amrywiaeth o amgylcheddau gwasanaeth, o wasanaethau cwnsela i wasanaethau maethu anifeiliaid anwes;
- Gwell arferion comisiynu er mwyn osgoi dyblygu gwasanaethau neu flaenoriaethu meysydd angen yn wael;
- Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth, hyfforddiant ac addysg ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus ac, yn enwedig, yr heddlu, ynadon, athrawon, gweithwyr y GIG a gweithwyr tai.

**Argymhelliad 6**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau comisiynu, gan nodi ystod a safonau gwasanaethau y dylid eu darparu i ddiwallu anghenion pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, yn ystod yr ymyriad cynnar, yn ystod argyfwng, ac yn ystod yr ymyriad yn dilyn argyfwng. Dylai'r cyfarwyddyd gynnwys y mathau o wasanaeth sydd wedi'u nodi yn adran 6.2.4 uchod.

Dylid seilio'r cyfarwyddyd ar dystiolaeth, a dylai adlewyrchu gwahanol fathau a lefelau angen ymhlith pobl mewn gwahanol amgylchiadau. Dylai hefyd awgrymu'r hyn sy'n rhesymol o ran y cyfnod y dylai pobl orfod aros i gyrchu gwahanol wasanaethau. Y cyfarwyddyd i'w gyhoeddi erbyn mis Mai 2009.

Cydnabu'r Pwyllgor gyfraniad anferthol gwirfoddolwyr o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys goroeswyr cam-drin domestig, i ddarpariaeth gwasanaethau cymorth cam-drin domestig yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'r cyfraniad hwn yn niwtral o ran cost, a bod yna oblygiadau o ran adnoddau i sefydliadau sydd am recriwtio, hyfforddi, cefnogi a chadw gwirfoddolwyr addas.

**Argymhelliad 7**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynorthwyo mudiadau sydd am recriwtio gwirfoddolwyr trwy:

- gefnogi mudiadau cam-drin domestig i recriwtio a chadw gwirfoddolwyr, er enghraifft, trwy roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau recriwtio, a;
- rhoi cymorth ariannol ar gyfer hyfforddi gwirfoddolwyr y mae mudiadau'n eu recriwtio, os gall y mudiadau hynny ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad effeithiol at fynd i'r afael â cham-drin domestig yng Nghymru. Gall y rhain gynnwys mudiadau sy'n cynnig gwasanaethau cwnsela, cyngor a gwybodaeth a chynlluniau maethu anifeiliaid anwes.
- Nodi ffyrdd eraill i hybu gwasanaethau y mae'r mudiadau hyn yn eu darparu.

Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar waith yn y maes hwn erbyn mis Mai 2009, a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys hwn wedyn mewn adran ar wahân yn ei hadroddiad blynyddol ar gam-drin domestig.

### 6.3 Diwallu anghenion gwahanol grwpiau o bobl

6.3.1 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gan wahanol grwpiau o bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt wahanol anghenion, a'i bod yn bosibl bod y ddarpariaeth gwasanaeth bresennol yn diwallu anghenion rhai grwpiau o bobl yn fwy effeithiol nag eraill.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai gwasanaethau addas fod yr un mor hygyrch i'r holl bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, yn unol â'u hanghenion a'u hamgylchiadau. Casglwyd llawer iawn i dystiolaeth ar y pwnc hwn. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu rhai o'r meysydd pryder allweddol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau addas i wahanol grwpiau o bobl. Bwriedir yr argymhellion i sicrhau bod anghenion gwahanol grwpiau o bobl mewn gwahanol amgylchiadau'n cael eu hystyried a'u trin mewn modd mwy effeithiol.

6.3.2 Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn argymhelliad Age Concern Cymru y dylid datblygu cynllun gweithredu strategol ar gyfer pobl hŷn, a chynnwys pobl hŷn yn y gwaith o'i lunio, i sicrhau bod Strategaeth cam-drin domestig Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol. Ar ôl cymryd tystiolaeth oddi wrth ystod o sefydliadau sy'n cynrychioli neu'n cefnogi grwpiau penodol o bobl, mae'r Pwyllgor yn teimlo y gallai cynllunio gweithredu yn y modd hwn fod yn effeithiol wrth sicrhau bod anghenion pawb yn cael eu diwallu.

**Argymhelliad 8**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'i phartneriaid i gynhyrchu cynllun gweithredu sy'n manylu ar sut bydd ei Strategaeth cam-drin domestig yn cael ei rhoi ar waith. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys cerrig milltir cyflenwi allweddol, a dylai fanylu'n benodol ar sut bydd y Strategaeth yn cefnogi pobl o'r grwpiau a ganlyn y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt:

- Menywod
- Plant a phobl ifanc
- Dynion
- Pobl hŷn
- Pobl o gefndiroedd neu gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu gefndiroedd neu gymunedau ffydd, gan gynnwys menywod nad yw cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt
- Pobl anabl
- Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol
- Gofalwyr
- Pobl ag anghenion cymhleth, gan gynnwys y rheini â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau, y mae angen gwasanaethau arbenigol arnynt, megis cymorth 24 awr mewn lloches
- Pobl mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys ystyried materion yn ymwneud â chludiant gwledig wrth benderfynu ar ariannu
- Siaradwyr Cymraeg

Dylid datblygu'r cynllun gweithredu gan gynnwys pobl o'r grwpiau a nodir uchod wrth ei lunio, a sicrhau ei fod yn eiddo i'r cyhoedd. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor ar y cynllun gweithredu erbyn mis Mai 2009, ac wedi hynny cynnwys hwn mewn adran ar wahân yn ei hadroddiad blynyddol ar gam-drin domestig.

6.3.3 Isod ceir rhai enghreifftiau o bryderon y Pwyllgor o ran grwpiau penodol o bobl.

**Plant**

6.3.4 Roedd yn bryder arbennig gan y Pwyllgor nad yw anghenion plant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn cael eu diwallu'n ddigonol. Codwyd pryderon ynghylch diffyg ymyriad cynnar, darpariaeth argyfwng a darpariaeth ddilynol ar gyfer plant.

"Mae'n rhaid inni barhau i gyflenwi gwasanaethau ar y rheng flaen, a'u datblygu, i ddiwallu anghenion ystod ehangach o fenywod a phlant. Fodd bynnag, trwy atal yn unig y byddwn yn rhwystro llif trais domestig yn y pen draw. Mae gwaith yn mynd rhagddo â phlant yn achos gwasanaethau ar y rheng flaen ac yn achos ariannu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, a chydnabyddir bod angen y math o ymyriadau ar blant a phobl ifanc a ddaw yn sgil cwnsela da a therapi da, ond mae angen i ni wneud mwy o waith o fewn y cyd-destun atal hwnnw. Pan mae plant yn cyrchu gwasanaethau cam-drin domestig, dyma ein cyfle cyntaf i'w cefnogi trwy eu hargyfwng ar y pryd, ond mae hefyd yn gyfle i osod sylfeini ar gyfer atal hyn yn y dyfodol, a'u cefnogi i gydnabod nad yw'r perthnasoedd maent yn dyst iddynt yn iach nac yn bositif."

**Cymorth i Fenywod Cymru Caerdydd**

Mynegodd cyfranwyr bryderon penodol ynglŷn â dynion ifanc 14 oed a hŷn nad oes modd rhoi llety iddynt mewn llochesau, a phlant anabl a phlant â rhiant anabl, nad oes modd eto rhoi llety iddynt mewn darpariaeth lloches ac a allai ei chael yn anodd symud o ardal y mae pecyn gofal wedi'i drefnu'n lleol ynddi. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn ag argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau i ofalwyr ifanc a menywod ifanc â phlant eu hunain. Adroddodd cyfranwyr fod y ddarpariaeth gwasanaeth yn methu plant nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Nid oedd rhai llochesau mewn sefyllfa i'w helpu. Dygodd Cymorth i Fenywod Cymru sylw at ymchwil a wnaed yn un ardal awdurdod lleol a oedd wedi datgelu bod "trais domestig yn broblem sylweddol i blant (wedi'u gwahardd) yn oddeutu 90 y cant o'r teuluoedd. Y peth yw, os nad ydynt yn yr ysgol, maent yn fwy agored i niwed. Bydd yna lawer ohonynt na fyddant mewn lloches; yn hytrach, byddant yn rhydd i grwydro."

"Hefyd, prin yw'r cyfleusterau a'r gwasanaethau ar gyfer menywod ifanc rhwng 16 a 18 oed sy'n dod i loches yn eu rhinwedd eu hunain, nid fel plant dioddefwr, ond fel dioddefwyr eu hunain. Dan Ddeddf Plant 2004, fe'u hystyrir yn blant. Fodd bynnag, maent yn dod yn eu rhinwedd eu hunain ond efallai nad ydynt o reidrwydd yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae yna un neu ddau – llai na chwech – o weithwyr plant mewn llochesau sydd â chylch gwaith ieuenctid. Maent wedi'u hariannu dan yr agenda Ymestyn Hawliau. Gallant weithio gyda phobl hyd at 25 oed. Felly, yn y lleoedd hynny maent yn cael eu gwasanaethu, ond mewn llawer o lochesau maent yn cael eu trin fel oedolion.

Mae llochesau'n eithaf cyfyngedig o ran yr hyn y gallant ei wneud â phlant (sydd wedi'u gwahardd). Efallai y byddant yn dweud na all plentyn hŷn nad yw mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ddod i mewn i loches. Mae hynny'n broblem."

**Cymorth i Fenywod Cymru (Gwasanaethau Plant)**

**Rhaglen 'Hawl i Fod yn Ddiogel' Pili Pala**

Mae'r NSPCC yn darparu cymorth i oedolion, plant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, trwy ei raglen Pili Pala – Hawl i fod yn Ddiogel. Rhaglen gwaith grŵp 10 wythnos yw hon y gellir ei chyflwyno yn Gymraeg neu Saesneg. Mae'n darparu dysgu paralel i fenywod a phlant ar effaith cam-drin domestig ar eu bywydau. Mae'n eu helpu i 'ddadbacio' eu profiadau a'u hailfframio, ac ar yr un pryd yn darparu fforwm therapiwtig i blant archwilio'u teimladau mewn amgylchedd diogel.

Mae'r grŵp menywod yn darparu dysgu trwy brofiad sy'n ymwneud ag effeithiau cam-drin domestig ar fywydau a chyfnodau datblygu eu plant. Mae'n caniatáu i fenywod archwilio'u rolau fel mamau yn ddiogel, ac yn hwyluso newid ymddygiad yn bositif.

Mae'r grŵp plant yn darparu amgylchedd diogel i archwilio'n therapiwtig eu profiadau o gam-drin domestig, adeiladu hunan-barch a helpu i ddatblygu cadernid emosiynol a strategaethau cadw'n ddiogel. Mae'n darparu fforwm grŵp cyfoedion lle gall plant ifanc 'dorri'r gyfrinach' a siarad yn agored â'i gilydd ynglŷn â'u hofnau a'u pryderon. Mae gwaith grŵp yn mynd i'r afael â'r rolau y mae plant yn aml yn eu hysgwyddo neu sy'n cael eu gorfodi arnynt, e.e. i ferched, mae hon yn fwy tebygol o fod yn rôl gofalwr, cyfeilles fynwesol neu fwch dihangol y fam, ac i fechgyn, gallai fod yn rôl cynorthwyydd y treisiwr. Mae canlyniadau ysgwyddo'r rolau hyn yn ddwfn i'r plentyn.

Mae'r grŵp pobl yn eu harddegau mewn perygl yn rhoi cyfle i archwilio sut gall eu profiadau effeithio o hyd ar eu hymddygiad a'u gwerthoedd, i weithio ar faterion sy'n ymwneud â dicter a gwrthdaro, rhyw a rhywedd. Mae'n helpu i adeiladu hunan-barch ac ymddygiadau amddiffynnol, yn enwedig ynghylch strategaethau ymdopi 'mewn perygl' y byddent o bosibl yn eu defnyddio, er enghraifft llacrwydd moesau, cyffuriau ac alcohol. Rhoddir gwybod i'r bobl ifanc am ddewisiadau a strategaethau ymdopi mwy positif.

Mae mesurau diogelu'n cynnwys cytundeb protocol rhwng adran gwasanaethau cymdeithasol yr ardal a'r asiantaeth sy'n bwriadu rhedeg y rhaglen, a datgeliadau manwl y Swyddfa Cofnodion Troseddol a hyfforddiant amddiffyn plant ar gyfer hwyluswyr. Mae contractau'n cael eu cwblhau â rhieni sy'n manylu'n eglur ar ddisgwyliadau'r broses grwpiau, cyfrinachedd a'i therfynau a chyfrifoldebau. Mewn rhai achosion penodol, gellir darparu ymyriad un-i-un.

6.3.5 Nodwyd yr angen am wybodaeth a chyngor mwy hygyrch, er enghraifft, trwy linell gymorth a/neu wefan plant arbenigol. Roedd cyfranwyr hefyd yn pryderu ynghylch y diffyg cymorth i blant sy'n datgelu profiadau o gam-drin domestig yn sgil hyn yn cael ei godi mewn pwnc Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn yr ysgol.

"Byddwn yn dwyn sylw at yr angen am ariannu ar gyfer gwasanaethau plant. Bydd y gwaith ataliol yn cael ei rwystro a'i arafu os nad yw athrawon a gweithwyr ieuenctid yn gwybod lle i fynd â'r wybodaeth a ddaw i'w rhan."

**Cydgysylltydd Cam-drin Domestig, Tor-faen**

“Nid wyf yn meddwl bod model Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth yn gweithio cystal i bobl ifanc. Mae’r rheini rhwng 16 a 18 oed yn ddigon hen i fod yn briod ond, ar yr un pryd, nid yw gweithdrefnau amddiffyn plant yn eu cynnwys. Ceir gorgyffwrdd yma rhwng trefniadau diogelu’r cyhoedd, cam-drin domestig ac amddiffyn plant, a’r bobl ar y ffiniau sy’n cwympo trwy’r bylchau. Nid wyf yn meddwl ein bod cystal â hynny. Hoffwn gael gweithiwr pobl ifanc sy’n gweithio’n benodol gydag, er enghraifft, merch 16 oed sydd â dau o blant sy’n dod trwy’r uned. Rydym bob amser yn sicrhau bod gennym berson ifanc ar y tîm oherwydd ei bod yn bwysig bod y tîm yn adlewyrchu’r ddinas mae’n ei gwasanaethu. Mae’r mwyafrif ohonom yn ein hoed a’n hamser, felly mae’n eithaf braf cael un neu ddau o bobl iau, oherwydd weithiau maent am siarad â rhywun sy’n eu hatgoffa o’u mam, ac weithiau nid ydynt am wneud hynny”.

“Mae yna hefyd grŵp o bobl ifanc agored i niwed sy’n destun camfanteisio rhywiol. Byddai cam-drin domestig yn digwydd iddyn nhw gan y sawl sy’n eu rheoli ac sy’n mynd â’u harian. Mae’r grŵp hwnnw’n anodd i’w gyrraedd. Mae gan y sefydliad rydw i’n gweithio iddo, sef Cymru Ddiogelach, wasanaeth o’r enw StreetLife i’r bobl ifanc hyn. Mae StreetLife wedi gwneud atgyfeiriad i Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth, ond dim ond un hyd yma. Mae yna grŵp o bobl ifanc, yn enwedig y rhai sy’n agored i niwed, nad ydym cystal am gysylltu â nhw, oherwydd eu bod yn anodd eu cyrraedd”.

**Jan Pickles, Uned Diogelwch rhag Cam-drin Domestig Caerdydd**

6.3.6 Pan ymwelodd Aelodau’r Pwyllgor â’r NSPCC yng Ngogledd Cymru, sy’n cyflenwi rhaglen ‘Pili Pala’ i deuluoedd y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, dywedwyd wrthynt bod rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth wedi adrodd bod plant wedi cael eu cam-drin yn ystod ymweliadau cyswllt. Mynegodd cyfranogwyr bryderon y gallai penderfyniadau gwael y Llys Teulu ynghylch trefniadau cyswllt fod yn ffactor cyfrannol.

“Mae yna broblem â llysoedd teulu. Pan mae’r fam ei hun wedi gorfod mynd â’i phlentyn at y tad, dan y gorchymyn cyswllt plentyn, mae yna adegau wedi bod pan mae’r tad wedi eu dilyn yn ôl i’r lloches, ac mae cam-drin llafar a brawychu wedi digwydd. Roeddent yn teimlo nad oedd y llysoedd teulu’n rhoi digon o ystyriaeth i hyn.”

**Mark Isherwood AC, yn adrodd ar dystiolaeth o ymweliadau â llochesau yng Ngogledd Cymru**

“Nid yw gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu defnyddio ar gyfer mwyafrif y teuluoedd lle ceir cam-drin domestig. Un o’r pethau rydw i’n arbennig o bryderus yn ei gylch yw’r ffaith bod yr heddlu’n atgyfeirio teulu i’r gwasanaethau cymdeithasol bob tro y maent yn cael eu galw i deulu lle ceir cam-drin domestig, ac mae yna blant yn bresennol, ond ni all y gwasanaethau cymdeithasol ddelio ag unrhyw un heblaw am y rheini sydd yn y perygl mwyaf. Felly, maent yn gwybod bod yr holl deuluoedd hyn yn bodoli sy’n dioddef cam-drin domestig, oherwydd eu bod yn eu cofnodi, ond nid oes unrhyw beth yn digwydd.”

**Cymorth i Fenywod Cymru (Gwasanaethau Plant)**

**Argymhelliad 9**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn cael eu diwallu. Yn anad dim, dylai sicrhau:

- Bod gweithwyr arbenigol yn cefnogi'r holl blant a phobl ifanc mewn llochesau
- Bod gweithwyr arbenigol yn parhau i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n symud ymlaen o ddarpariaeth lloches
- Y dylai gwasanaethau cwnsela, therapiwteg, iechyd meddwl, cyngor ac eiriolaeth sy'n oedran briodol fod ar gael yn amserol i'r holl blant a phobl ifanc y mae sefydliadau'n gwybod bod cam-drin domestig wedi effeithio arnynt, neu sy'n datgelu bod cam-drin domestig wedi effeithio arnynt
- Bod darpariaeth ar gyfer dynion ifanc rhwng 14 a 18 oed iddynt allu aros gyda'i mam neu ofalwr arall pan mae angen iddynt adael cartref y teulu o ganlyniad i gam-drin domestig
- Bod darpariaeth ar gyfer menywod ifanc dan 18 oed sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig gan eu partner eu hunain
- Bod darpariaeth ar gyfer plant anabl neu blant rhiant anabl y mae angen iddi/iddo adael ei gartref/ei chartref ar frys. Mae angen mynd i'r afael â hygyrchedd corfforol llochesau, a sicrhau bod modd aildrefnu pecynnau gofal yn gyflym ar ôl symud.

Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009, ac wedi hynny cynnwys hwn mewn adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

**Argymhelliad 10**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda CAFCASS a mudiadau perthnasol y sector gwirfoddol i:

- nodi achosion lle mae plant wedi'u cam-drin yn ystod ymweliadau cyswllt, neu lle mae mamau wedi'u cam-drin o ganlyniad i drefniadau cyswllt
- cymryd camau i sicrhau bod plant a menywod sy'n gysylltiedig â threfniadau cyswllt yn y dyfodol mewn cyn lleied o berygl â phosibl.

Dylid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor erbyn mis Mai 2009 sy'n rhoi crynodeb o gynnydd.

**Menywod**

6.3.7 Gan mai menywod yw mwyafrif y dioddefwyr cam-drin domestig, mae llawer o'r pryderon cyffredinol a godwyd ynglŷn â darpariaeth gwasanaeth yn effeithio ar fenywod. Yn benodol, cododd nifer o gyfranwyr bryderon ynghylch y bygythiad i wasanaethau menywod yn unig o ganlyniad i gyrff ariannu'n mynnu darpariaeth gwasanaeth cymysg neu niwtral o ran y rhywiau.

> "Mae comisiynu a chaffael yn gwneud i gynghorau deimlo ychydig yn anniddig, ac maent yn gyndyn, wrth gomisiynu, o ddweud yn benodol y dylai gwasanaethau fod yn wasanaethau y mae menywod yn eu rhedeg, neu'n wasanaeth menywod yn unig, oherwydd eu bod yn ofni torri deddfwriaeth yr UE. Felly, mae angen i lawer o addysg fod ar gael i awdurdodau lleol. Os ydynt yn bwriadu dilyn y trywydd comisiynu, mae'n berffaith iawn, o fewn y broses gomisiynu honno, dweud 'Dyma sut olwg rydym am ei chael ar ein gwasanaethau lleol'. Ni fyddai hynny'n torri unrhyw ddeddfwriaeth, a byddai awdurdodau lleol yn cael cymorth. I ddod yn ôl i'r strategaeth: os yw'r strategaeth yn dweud 'Dyma sut olwg rydym am ei chael ar ein gwasanaethau ledled y wlad', ac os byddwch yn cysylltu hynny â threfniadau neu dargedau ardal leol ar gyfer awdurdodau lleol, byddwch yn dechrau codi wal o gefnogaeth i sut ydych am weld gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n lleol, a byddwch yn cefnogi awdurdodau lleol i wneud hynny.
>
> "... mae'n dod yn ôl at y diffiniad o ran y rhywiau, oherwydd bod awdurdodau lleol yn rhoi pwysau ar ein grwpiau i ddarparu gwasanaethau cymysg, ac nid oes unrhyw dystiolaeth y dylid cael gwasanaethau cymysg. Mae'r ddyletswydd sy'n ymwneud â chydraddoldeb rhywiol hyd yn oed yn dweud, gan mai trosedd yn erbyn menywod yw cam-drin domestig gan amlaf, dylai awdurdodau lleol fod yn gwneud eu gorau glas i'w hatal – ac nid ydynt yn gwneud hynny."
>
> **Cymorth i Fenywod Cymru Caerdydd**

6.3.8 Gwnaed y Pwyllgor yn ymwybodol hefyd o anghenion iechyd rhywiol dioddefwyr benywaidd cam-drin domestig. Mae Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn un llwybr i sicrhau bod gwasanaethau iechyd rhywiol, gan gynnwys sgrinio serfigol, ar gael mewn modd diogel, nad yw'n drawmatig (Gweler argymhellion 6 a 28).

Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd argymhelliad 6 yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu comisiynu er mwyn diwallu anghenion asesedig.

6.3.9 Cododd yr NSPCC bryderon penodol hefyd y gallai menywod y mae'n rhaid iddynt gadw cysylltiad â phartner treisiol o ganlyniad i drefniadau cyswllt a wneir trwy'r Llys Teulu fod mewn perygl. Mae argymhelliad 10 uchod yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

**Dynion**

6.3.10 Roedd rhai cyfranwyr yn teimlo bod dynion sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig yn dal i fod yn ôl-ystyriaeth mewn rhai cylchoedd. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth

y Cynllun Dyn ar anghenion penodol dioddefwyr gwrywaidd, ac mae'n cytuno y dylai comisiynwyr ystyried anghenion dynion o wahanol gefndiroedd ac amgylchiadau y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

**Pobl o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu gymunedau ffydd a dinasyddion nad ydynt yn Brydeinig**

6.3.11  Roedd cyfranwyr o'r farn nad yw gwasanaethau cam-drin domestig bob amser yn sensitif i anghenion gwahanol grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig – mae hyn yn broblem benodol mewn llochesau lle mae cyfleusterau fel ceginau ac ystafelloedd ymolchi'n cael eu rhannu. Mae darpariaeth sy'n benodol ar gyfer Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn gyfyngedig. Nodwyd heriau penodol o ran rhoi cyhoeddusrwydd i gymorth i fenywod nad yw eu sgiliau Iaith Saesneg yn dda iawn ac a allai fod wedi'u hynysu'n gymdeithasol. Dygodd tystiolaeth sylw at sefyllfa fregus benodol dioddefwyr o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n ofni y gallai gadael perthynas dreisiol arwain at amddifadedd, cael eu hanfon yn ôl i'w gwlad eu hunain, a chael eu dieithrio o'u teulu cyfan a'u rhwydwaith cefnogi cymunedol. Cydnabuwyd hefyd yr angen i ddatblygu rhaglenni mentora sy'n ystyried ffiniau eglur o ran rhywedd ar gyfer bechgyn a merched mewn rhai cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig.

6.3.12  Cododd cyfranwyr bryderon ynglŷn â sefyllfa'r nifer sylweddol o fenywod sy'n ffoi cam-drin domestig heb fod â chronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt dan reolau mewnfudo'r DU. Mae amgylchiadau menywod a phlant nad yw cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt yn amrywio. Efallai mai ceiswyr lloches sy'n ffoi trais domestig ydynt, neu fenywod sydd â fisa priodasol, menywod o wladwriaethau sydd wedi'u derbyn i'r UE y mae eu hawl wedi'i seilio ar gyflogaeth, partneriaid dynion sydd yn y DU dan gyfyngiadau mewnfudo e.e. myfyrwyr, menywod wedi'u masnachu neu fenywod sengl, y rhoddir blaenoriaeth is i'w hachosion na'r rheini sy'n ceisio dianc o gam-drin domestig gyda phlant, ac yr honnir y gall y perygl o hunanladdiad fod yn arbennig o uchel. Efallai nad yw'r grwpiau o fenywod hyn yn ymwybodol o 'reol trais domestig' y Swyddfa Gartref sy'n caniatáu iddynt gyrchu gwasanaethau a chael budd-daliadau, ac mae cofnodion BAWSO (Black Association of Women Step Out Cyf) yn awgrymu bod y cyfnod ar gyfer cais dan y 'rheol trais domestig' yn amrywio rhwng 6 a 12 mis, nid yr 28 diwrnod maent yn dweud bod y Swyddfa Gartref yn ei honni. Yn 2006-07, cefnogodd BAWSO 50 o fenywod nad oedd cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt, a bu'n rhaid i'r mudiad hwnnw ei hun wrthod lloches i 72 o fenywod nad oedd cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt yn ystod 2007-08, sef nifer maent yn dweud sy'n cynyddu'n gyflym yn ôl pob golwg. Mae tystiolaeth arall oddi wrth yr NSPCC, Cymorth i Fenywod Cymru a darparwyr gwasanaeth yn Ngogledd Cymru'n awgrymu bod angen adolygu cymorth ar gyfer menywod a phlant o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n ffoi cam-drin domestig, neu a fyddai'n gadael sefyllfa dreisiol pe byddent yn hyderus ynglŷn â'r cymorth a fyddai ar gael iddynt.

"Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi cefnogi mwy na 127 o fenywod nad oedd arian cyhoeddus ar gael iddynt, a chefnogwyr rhyw 50 o'r menywod hynny yn ein llochesau. Mae hyn yn bennaf oherwydd y goblygiad o ran adnoddau i ni fel darparwyr cymorth. Nid ydym yn gwrthod gweddill y menywod ac yn dweud wrthynt na allwn eu

cefnogi. Mae gennym brosiect allgymorth sy'n cefnogi menywod yn emosiynol, a thrwy eu statws mewnfudo. Tra'u bod yma, rydym yn darparu gwasanaeth ar yr un lefel ag y gallwn fel darparwyr cymorth, ond mae yna oblygiadau o ran adnoddau ynghlwm â hyn i ni.

"Y prif oblygiad i ni yw'r diffyg budd-daliadau y gallant eu hawlio. Felly, rydym yn mynd heb y budd-dal tai y byddem wedi'i hawlio, sy'n cyfrannu at gost rhedeg ein llochesau, ar gyfer pob menyw sy'n dod i mewn. Ar yr un pryd, oherwydd nad ydynt yn gymwys i gael budd-daliadau, mae'n rhaid i ni gael rhoddion ar gyfer dillad, ac i allu rhoi'r swm lleiaf posibl o arian ar gyfer bwyd; rydym yn talu rhyw £20 i fenyw, er enghraifft, ond gellir gwario hynny oll ar gewynnau a bwyd babanod yn unig, felly maent yn ei chael yn anodd ymdopi. Felly, mewn un ffordd, maent yn dianc o dlodi, ond maent yn dod i mewn i fath arall o sefyllfa tlodi i ni.

"Y ffordd ymlaen i ni – a dyma yw ein hargymhelliad – ar lefel llywodraeth, yw cael gwared ar y rheol sy'n dweud nad yw cronfeydd cyhoeddus ar gael i fenyw am ddwy flynedd, a fyddai'n helpu menywod i osgoi tlodi pan fyddant yn gadael sefyllfa cam-drin domestig. Mae hynny'n broblem arall – mae yna lawer o fenywod nad ydynt yn gadael y cartref, er eu bod yn dioddef camdriniaeth, oherwydd o leiaf ni fydd yn rhaid iddynt roi eu plant trwy galedi a fyddai'n dod o ganlyniad i adael. Fodd bynnag, eto, dewis y mae'n rhaid i fenyw ei wneud yw hwn, ac mae'n cymryd amser hir iddynt, trwy waith allgymorth, i gyrraedd y pwynt pan maent yn penderfynu o'r diwedd ein bod yn gallu eu cefnogi. Llawer o'r amser, mae'n rhaid i ni roi terfyn amser penodol i ni'n hunain, a chapio nifer y menywod y gallwn eu cefnogi ar unrhyw un adeg, oherwydd goblygiadau o ran adnoddau. Felly, mae llawer o fudiadau cymorth i fenywod yn rhannu cyfrifoldebau, felly nid ni yw'r unig rai – mae mudiadau cymorth i fenywod eraill yn derbyn menywod hefyd."

**Black Association of Women Step Out (BAWSO)**

**Argymhelliad 11**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu ymateb mwy cydlynol, â mwy o adnoddau, i anghenion menywod nad yw cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt (NRPF) dan reolau Mewnfudo'r Swyddfa Gartref, a gofyn i Lywodraeth y DU newid rheolau NRPF. Hyd nes bydd rheolau NRPF yn cael eu newid, dylai:

- Nodi ffyrdd i godi ymwybyddiaeth o'r 'rheol trais domestig' a'i gyfathrebu mewn gwybodaeth a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig
- Monitro'r amser mae'n ei gymryd i'r Swyddfa Gartref farnu penderfyniadau dan y rheol cam-drin domestig yng Nghymru i asesu'r gost sy'n ymwneud ag NRPF
- Ystyried fformwla ar gyfer cymorth i gyrff sy'n cefnogi menywod NRPF
- Ystyried comisiynu ymchwil i fonitro mynychder menywod NRPF dros y ddwy flynedd nesaf, a'r ymateb iddynt
- Sicrhau yr ystyrir menywod NRPF yn flaenoriaeth i wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fel ei gilydd mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth

yn y dyfodol.

Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn mewn adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

6.3.13 Mynegwyd pryderon hefyd, yn enwedig, ynglŷn â menywod a oedd yn cael eu masnachu ar gyfer rhyw, a dioddefwyr trais 'er anrhydedd' a cham-drin sy'n gysylltiedig â phriodi dan orfod. Mae ymchwil gan BAWSO i nodi lefel cysylltiad gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr ag achosion o briodi dan orfod wedi bod yn gyfyngedig, ond mae ffigyrau ar gyfer nifer y menywod (ifanc gan amlaf) o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru a oedd yn cael eu gorfodi i briodi wedi dangos cynnydd. Mae'n bwysig iawn monitro data a hyfforddi gweithwyr proffesiynol yn y maes hwn.

6.3.14 Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymwneud mudiadau sy'n cynrychioli safbwyntiau dioddefwyr cam-drin domestig sy'n dod o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig â gwaith Gweithgor Cam-Drin Domestig Cymru Gyfan Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gwaith ei is-grŵp ar faterion penodol sy'n ymwneud â cham-drin 'er anrhydedd', anffurfio organau rhywiol menywod a phriodasau dan orfod. Darganfu ymgynghoriad diweddar Sefydliad Henna ag ymarferwyr Cymru lefel uchel o ansicrwydd a diffyg hyder wrth ddelio â thrais 'er anrhydedd' a phriodi dan orfod, ond roedd yr ymarferwyr dan sylw yn bositif iawn ynghylch datblygiad cyfeirlyfr a phecyn cymorth i'w helpu i ddelio â'r materion sensitif hyn. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymchwil bellach i raddau'r problemau hyn yng Nghymru, a chyflwyniad fesul cam o fentrau megis y cyfeirlyfr a'r pecyn cymorth i helpu i gefnogi'r rheini y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu i argymelliadau 6 ac 8 helpu i wella'r graddau y mae anghenion pobl o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu nodi a'u diwallu.

**Pobl hŷn**

6.3.15 Fel y dywedwyd yn adran 6.1, cytunodd y Pwyllgor fod yna le i gryfhau Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad o ran pobl hŷn. Roedd rhai cyfranwyr yn teimlo bod MARAC, y dangoswyd ei fod yn effeithiol ar gyfer rhai menywod, o bosibl yn llai addas ar gyfer pobl hŷn, ac efallai fod angen dull gwahanol o drin gwaith gyda dioddefwyr cam-drin domestig hŷn sydd yn y perygl mwyaf. Codwyd pryderon hefyd nad yw cyfiawnder yn hygyrch i bobl â demensia lle nad ystyrir eu bod yn dystion dibynadwy. Argymhellodd Age Concern Cymru y dylid ymgymryd â phrosiect peilot *Mynediad at Gyfiawnder* yng Nghymru, ac roedd yna alwadau am eiriolaeth annibynnol rhad ac am ddim i bobl hŷn y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Codwyd pryderon hefyd ynglŷn â ph'un a yw'r Strategaeth yn cefnogi dioddefwyr cam-drin pobl hŷn (gweler Argymhelliad 3 uchod).

**Argymhelliad 12**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ariannu ar gyfer prosiect peilot 'Mynediad at Gyfiawnder' i ganolbwyntio ar dystion hŷn agored i

niwed.

Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar yr argymhelliad hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

**Pobl anabl**

6.3.16 Cyflwynodd cyfranwyr dystiolaeth nad yw anghenion pobl anabl yn cael eu diwallu mewn rhai ardaloedd, yn enwedig o ran y ddarpariaeth lloches. Cydnabuwyd hefyd nad y system MARAC yw'r ffordd orau o bosibl o ddiwallu anghenion dioddefwyr cam-drin domestig anabl risg uchel. Yn ôl Cymorth i Fenywod Cymru, nid yw 17 o'u 45 lloches yn gwbl hygyrch i bobl anabl. Un lloches yn unig sy'n gallu ymdopi â chŵn tywys, a gall un ddarparu gwasanaethau mewn Braille. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu i nifer o'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn helpu i sicrhau bod anghenion pobl anabl yn cael eu diwallu'n fwy effeithiol (Argymhellion 5, 6, 8 a 9 yn benodol).

"Rwy'n teimlo bod y model (MARAC) yn gweithio i'r grŵp hwnnw (Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig). Nid wyf yn meddwl ei fod yn gweithio cystal i bobl ag anableddau neu i bobl hŷn.

"Rwyf yn ddiweddar wedi dilyn rhywfaint o hyfforddiant roedd y Swyddfa Gartref yn ei ariannu, ar gyfer grŵp o Age Concern. Mae llawer o bobl yn ystyried mai rhywbeth sy'n digwydd i bobl ifanc yw cam-drin, ond mae pobl dros 80 oed yn cael eu hatgyfeirio atom, ac rydym yn gwneud darnau o waith creadigol o amgylch y bobl hynny. Yn aml, cafodd y bobl hyn eu magu mewn oes lle nad oedd unrhyw le i fynd iddo, a'r agwedd oedd eich bod wedi gwneud y cawl, felly roedd yn rhaid ichi ei yfed; dylech chi bydru ymlaen gan mai dyma sut beth yw bywyd priodasol. Felly, gallai cam-drin fod wedi bod yn digwydd am 56 mlynedd ac, yn amlwg, maent yn teimlo nad oes unrhyw ddewis na dihangfa. Gwnaethom ddarn o waith lle gwnaethom newid amser apwyntiad ysbyty ar gyfer y tramgwyddwr honedig fel bod yn rhaid iddo fynd i mewn yn gynt, a phan roedd y gwasanaeth cludiant i'r ysbyty wedi'i godi gwnaethant ein ffonio. Yna, aethom i mewn i'r tŷ a gweld y dioddefwr, nad oedd yn gallu dod allan o'u cartref. Felly, mae darnau o waith cydlynol trwy MARAC yn digwydd yn achos yr henoed, ond nid ydym cystal gyda'r grŵp hwnnw, oherwydd bod y sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda'r grŵp hwn yn ei ystyried mwy fel cam-drin gan ofalwr, ac mae yna lawer o bobl nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer oedolion agored i niwed."

**Uned Diogelwch Menywod Caerdydd**

**Gofalwyr**

6.3.17 Roedd cyfranwyr yn teimlo y gall y straen ar ofalwyr a'r bobl maent yn gofalu amdanynt arwain at sefyllfa lle mae perygl o gam-drin domestig mewn teulu lle na fu perygl o hyn o'r blaen. Teimlwyd mai'r ffordd orau i helpu gofalwyr yw sicrhau bod cymorth cyffredinol ar gael. Dadl Cynhalwyr Cymru oedd y dylid cael trafodaeth bellach ar y

'contract cymdeithasol'. Ystyriwyd bod gofalwyr ifanc yn grŵp o blant a phobl ifanc sy'n arbennig o agored i ddioddef effeithiau cam-drin domestig.

**Argymhelliad 13**

Llywodraeth Cynulliad Cymru i arwain yn y gwaith o sbarduno trafodaeth gyhoeddus ar y 'contract cymdeithasol' a'r hyn y mae'n rhesymol ei ddisgwyl oddi wrth ofalwyr yng Nghymru. Dylid ystyried anghenion gofalwyr yn arbennig wrth roi argymhellion 6, 8 a 9 yr adroddiad hwn ar waith.

Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar yr argymhelliad hwn erbyn mis Mai 2009.

**Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol**

6.3.18 Mae mwyafrif y gwasanaethau'n dweud eu bod yn darparu cymorth ar gyfer pobl, waeth beth fo'u rhywedd. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranwyr yn teimlo y gall problemau penodol ddod i ran pobl hoyw, er enghraifft, gallai datgelu camdriniaeth hefyd olygu bod yn rhaid iddynt gydnabod eu bod yn hoyw a chyflwyno'u hunain fel pobl hoyw. Roedd cyfranwyr yn teimlo bod rhai darparwyr wedi sylwi bod yn well gan ddynion hoyw a dynion heterorywiol gyrchu cymorth mewn ffyrdd gwahanol, gyda gwasanaethau eiriolaeth yn fwy apelgar i ddynion hoyw. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu y dylai argymhelliad 8 yn arbennig helpu i sicrhau bod anghenion pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol yn cael eu hystyried a'u diwallu. Ni chodwyd materion sy'n benodol berthnasol i bobl drawsrywiol yn ystod yr Ymchwiliad, ond mae'r Pwyllgor wedi eu cynnwys fel grŵp y cyfeirir ato yn argymhelliad 8.

"Mae'r proffil risg i ddioddefwyr gwrywaidd mewn partneriaethau o'r un rhyw yn debyg iawn i broffil menywod. Mae stelcio'n broblem iddyn nhw, felly weithiau mae angen iddynt ffoi o gartref, felly mae angen inni ddarparu rhyw fath o leoedd lloches ar gyfer dynion mewn partneriaethau o'r un rhyw."

**Uned Diogelwch Menywod Caerdydd**

**Pobl ag anghenion cymhleth**

6.3.19 Gall gwasanaethau cam-drin domestig ei chael yn anodd darparu llety ar gyfer dioddefwyr sydd â phroblemau eraill sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl neu nam corfforol. Mae'r Uned Diogelwch rhag Cam-drin Domestig yng Ngogledd Cymru wedi galw am lochesau sydd wedi'u staffio 24 awr y dydd ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth.

6.3.20 Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cynllun gweithredu ar gyfer strategaeth camddefnyddio sylweddau Llywodraeth y Cynulliad, *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau*

*Niwed*[15], a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn cynnwys tair gweithred sy'n ymwneud â cham-drin domestig:

- Cynhyrchu modiwl o'r Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau sy'n nodi arferion da gan gydweithio rhwng gwasanaethau cam-drin domestig a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau gan gynnwys polisïau derbyn y cytunir arnynt ar gyfer llochesau i fenywod
- Archwilio gweithdrefnau sgrinio ar gyfer cam-drin domestig er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n ymateb yn briodol pan fydd cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau'n digwydd gyda'i gilydd
- Archwilio'r hyfforddiant ymwybyddiaeth sydd ar gael ar gyfer cam-drin domestig i'r gweithlu camddefnyddio sylweddau a sicrhau bod hyfforddiant ar y cyd yn cael ei ddarparu ar gyfer y ddau weithlu

6.3.21 Mae'r Pwyllgor yn bwriadu i nifer o'r argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad helpu i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan gyfranwyr, yn enwedig argymhellion 5, 6, 7, 8 a 24 (ymwneud y GIG â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol).

**Pobl mewn ardaloedd gwledig**

6.3.22 Weithiau mae'n rhaid i bobl mewn ardaloedd gwledig deithio cryn bellteroedd i gyrchu gwasanaethau cymorth. Mewn rhai ardaloedd gwledig, mae gwasanaethau'n gyfyngedig iawn, neu ddim yn bodoli o gwbl, ac mae'r rheini y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn dioddef problemau cael eu hynysu. Rhaid ystyried darpariaeth gwasanaethau trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig wrth sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn hygyrch. Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth ddarparwyr gwasanaeth yng Ngogledd Cymru ynghylch y galw cynyddol am leoedd mewn llochesau i fenywod o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Yn Ngogledd-Ddwyrain Cymru'n enwedig, roedd hyn yn cynnwys menywod o dras Dwyrain Ewropeaidd a Phortiwgeaidd, gan adlewyrchu'r ddemograffeg leol. Roedd yn rhaid anfon rhai menywod a oedd yn ceisio lloches yn yr ardal i Loegr neu Dde Cymru oherwydd diffyg lleoedd arbenigol ar gael.

Mae argymhelliad 8 yn cyfeirio'n benodol at wledigrwydd.

**Siaradwyr Cymraeg**

6.3.23 Nid yw'r gallu gan wasanaethau cam-drin domestig bob amser i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hyn fod yn broblem i bobl sy'n teimlo'n fwyaf cyfforddus yn cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dygodd Fforwm Cam-drin Domestig Conwy sylw at broblemau lle gallai dioddefwr sy'n siarad Cymraeg, ac sy'n gorfod symud i loches oherwydd sefyllfa cam-drin domestig, gael ei (g)osod yn Lloegr, ac mae'r problemau hyn yn waeth fyth i blant ag anableddau oherwydd newidiadau yn narpariaeth

[15] Llywodraeth Cynulliad Cymru *Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed – Cynllun Gweithredu Tair Blynedd 2008-11* Hydref 2008: http://new.wales.gov.uk/dsjlg/publications/commmunitysafety/strategy/planw.pdf;jsessionid=NgR6JxnHhQSG1d2XsW62b5CDFZZyrR12MsL69dWTJM5qvnG0wQHQ!-45510742?lang=cy

eu pecyn gofal.  Dylid sicrhau bod anghenion yr iaith Gymraeg yn rhan o brif ffrwd Strategaeth cam-drin domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru drwyddi draw.

“I’r rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg, byddai’r gallu i drafod eu problemau yn eu hiaith gyntaf yn eu helpu i deimlo’n saff ac adeiladu perthynas dda efo’r rheini sy’n cynnig cymorth iddynt. Fe ddylid, yn ogystal, sicrhau bod y canlynol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg: cynlluniau sydd wedi eu hanelu at atal cam-drin domestig, gan gynnwys rhaglenni ysgolion a chynlluniau codi ymwybyddiaeth; y cymorth sydd ar gael ar gyfer grwpiau gwahanol, gan gynnwys gwasanaethau cynghori ar gyfer dynion, merched a phlant; y gwasanaethau sy’n cael eu darparu i oedolion a phlant sydd wedi dioddef camdriniaeth rhywiol.”

**Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

Mae argymhelliad 8 yn cyfeirio’n benodol at anghenion siaradwyr Cymraeg.

**Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth**

6.3.24  Er gwaethaf ymdrechion gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff sy’n bartneriaid i ddod â’r pwnc cam-drin domestig i’r amlwg, mae’n parhau i fod yn drosedd ‘gudd’, i raddau mwy neu lai, a gall ymddangos bod ei dioddefwyr yn anweladwy yn y broses o ddatblygu ymateb polisi i’r broblem. Mae Aelodau’r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i’r dioddefwyr cam-drin domestig hynny a gytunodd i siarad â nhw yn ystod yr ymchwiliad, gan gynnwys y menywod hynny sy’n byw mewn lloches a oedd yn barod i gyfarfod ag Aelod gwrywaidd o’r Pwyllgor, a siarad ag ef. Fel y dywedwyd yn argymhelliad 8 uchod, mae’r Pwyllgor o’r farn ei bod yn hanfodol bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn llwyr yn y gwaith o nodi bylchau yn y ddarpariaeth ac o ddatblygu gwasanaethau sy’n diwallu eu hanghenion.

“Mae yna gymaint mwy yr hoffem gallu ei gynnig ac mae angen i ni wneud gymaint yn fwy. Mae angen i ni droi popeth wyneb i waered, fel bod y darparwyr gwasanaeth yn dweud wrth y Llywodraeth beth sydd ei angen arnynt i fynd i’r afael â’r broblem.”

**Lloches Cymorth i Fenywod Aberconwy**

**6.4 Gwaith ataliol / herio agweddau diwylliannol**

6.4.1  Dro ar ôl tro, pwysleisiodd cyfranwyr bwysigrwydd ymyriad cynnar wrth fynd i’r afael â cham-drin domestig, a derbyniodd y Pwyllgor rhywfaint o dystiolaeth a oedd yn peri pryder oddi wrth ddarparwyr gwasanaeth ynglŷn â’r graddau yr oedd pobl ifanc yn rhoi gwybod am gamdriniaeth yn eu perthnasoedd eu hunain. Dywedodd y rheini a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc mewn ysgolion ac amgylcheddau ieuenctid am duedd ofidus ymhlith rhai pobl ifanc i dderbyn bod cam-drin yn digwydd, ac mae ymchwil a gasglwyd ynghyd gan Amnest Rhyngwladol fel rhan o'i ymgyrch i Atal Trais yn Erbyn Menywod yn cadarnhau hyn. Pwysleisiodd cyfranwyr bwysigrwydd addysgu pobl ifanc ynghylch yr hyn

a ystyrir yn berthynas iach. Mae gwasanaethau therapiwtig yr NSPCC ar gyfer pobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn pwysleisio pwysigrwydd helpu pobl ifanc i ailddysgu'r hyn a ystyrir yn berthynas ddiogel ac iach, fel nad yw ymddygiadau amhriodol a ddysgwyd yn cael eu hailadrodd yn eu perthnasoedd eu hunain fel oedolion.

> "Rhywbeth y sylwais arno, ac y cyfeiriaf ato yma, yw bod arolwg diweddar Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ynglŷn â diogelwch ar gyfer menywod yn datgelu bod yna agweddau wedi'u hen sefydlu o hyd ynghylch yr hyn sy'n briodol a'r hyn nad yw'n briodol, a phwy sydd i'w feio am beth, hyd yn oed ymhlith y grŵp 18 i 21 oed. Bydd hynny'n parhau oni bai ein bod yn dechrau lawer yn gynt; hyd yn oed os byddwn yn dechrau mewn ysgolion cynradd nawr, bydd yn dal i gymryd 10 mlynedd i fwydo hynny trwodd. Mae'n golygu rhoi'r offer i bobl ei ddianc, os bydd yn digwydd, a hefyd rhoi'r offer i fechgyn ddweud, 'Ni alla' i wneud hyn; dydy hyn ddim yn iawn'. "
>
> **Cydgysylltydd Cam-drin Domestig, Tor-faen**

**Gwaith ataliol cyffredinol gyda phlant**

6.4.2 Dygodd cyfranwyr sylw at nifer o enghreifftiau o waith sy'n cael ei wneud mewn ysgolion ac mewn amgylcheddau eraill â'r nod o newid agweddau ynghylch derbynioldeb camdriniaeth domestig ymhlith plant a phobl ifanc. Mae yna amrywiad sylweddol yn y ffordd y cyflenwir yr ymyriadau hyn ledled Cymru, er enghraifft:

- Maent yn cael eu cyflenwi gan ystod o bobl, gan gynnwys athrawon, arbenigwyr cam-drin domestig o'r sector gwirfoddol a swyddogion yr heddlu
- Cyflenwir ymyriadau mewn rhai ysgolion fel rhan o'r cwricwlwm ABCh ond nid mewn rhai eraill
- Cyflenwir rhai ymyriadau trwy'r fenter 'Crucial Crew' ond nid yw hon yn cael ei defnyddio mewn ysgolion annibynnol neu breifat
- Maent yn amrywio o ran faint o amser sy'n cael ei fuddsoddi ac o ran y dulliau a ddefnyddir i'w cyflenwi
- Gall y ffocws amrywio hefyd, a gallai olygu hybu perthnasoedd iach, agweddau'n ymwneud â cham-drin domestig a thrais yn gyffredinol
- Mae'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc nad ydynt yn yr ysgol hefyd yn amrywio ledled Cymru
- Mae'r trefniadau ar gyfer darparu cymorth dilynol i blant sy'n rhoi gwybod eu bod wedi cael profiad o gam-drin domestig hefyd yn amrywio.

6.4.3 Mae cyfranwyr wedi galw am ariannu cynaliadwy a mwy o gysonder yn narpariaeth gwaith ataliol cyffredinol i blant. Mae rhai timau troseddau ieuenctid bellach yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio cyfiawnder adferol i weithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl neu'n agored i gam-drin domestig.

6.4.4 Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod gwaith ataliol gyda phobl ifanc yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael yn effeithiol â cham-drin domestig. Bydd gwaith ataliol yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o fater cam-drin domestig a'r cymorth sydd ar gael i'r rheini y mae hyn yn

effeithio arnynt, ac ymdrechion i herio agweddau ynglŷn â derbynioldeb trais a chamdriniaeth. Clywodd y Pwyllgor nifer o enghreifftiau o weithgareddau codi ymwybyddiaeth a gwaith ataliol arloesol sy'n cael ei wneud mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru, ac mae'n cydnabod cyfraniad gweithwyr sy'n arbenigo mewn cam-drin domestig o'r sector gwirfoddol wrth gyflenwi rhaglenni. Mae pecyn Perthnasoedd Iach Gwent a phecyn Sbectrwm a ddatblygwyd gan Gymdeithas Tai Hafan yn ddwy enghraifft y mae'r Pwyllgor yn ymwybodol ohonynt. Mae'r fenter Crucial Crew hefyd yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth. Nododd un cyfrannwr, er bod Childline ar gael i blant a phobl ifanc, rhif y Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Genedlaethol a roddir ar fandiau llewys fel rhan o waith mewn ysgolion, sef rhif sy'n bennaf ar gyfer dioddefwyr sy'n oedolion. Dylid cyflenwi gwaith ataliol yn gyson gydol yr amser y mae plant yn aros mewn addysg gynradd ac uwchradd, ac nid mewn rhai grwpiau blwyddyn penodol yn unig, a dylai deunyddiau a chymorth oedran briodol fod ar gael. Mae hefyd yn hanfodol bod gwaith yn cael ei wneud yn gyson, nid mewn ysgolion yn unig, ond ym mhob amgylchedd addysg ac ieuenctid, i sicrhau ein bod yn cyrraedd plant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd.

> "Rydym yn gwybod, er enghraifft, yn Nhor-faen, bod tua 90 y cant o blant sydd â gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dod o gefndir treisiol. Rydym yn gwybod bod y timau troseddau ieuenctid yn gweithio gyda nifer uchel o blant sy'n dod o gefndir treisiol. Felly, mae yna lawer o dystiolaeth anecdotaidd o gwmpas. Nid ydym yn casglu unrhyw beth yn benodol ar hyn o bryd, ond efallai y byddai'n werth ystyried hynny fel prosiect.
>
> "Beth mae staff yn ei weld yn eithaf aml yw plentyn trafferthus, ac nid ydynt yn edrych y tu hwnt i'r ymddygiad trafferthus; nid ydynt yn edrych ar beth sydd wedi achosi'r ymddygiad trafferthus hwnnw. Rydym yn anwybyddu plant oherwydd eu bod yn drafferthus, ac nid ydym yn edrych i weld beth sydd wrth wraidd yr ymddygiad hwnnw."
>
> **Cydgysylltydd Cam-drin Domestig, Tor-faen**

6.4.5 Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod yna amrywiaeth fawr o ddulliau o weithredu ledled Cymru, ac nad oes gwerthusiad cydlynol o hyn. Er enghraifft, yn Abertawe, mae gweithiwr gwybodaeth am gam-drin domestig yn rhan o brosiect gwybodaeth ieuenctid. Maent yn mynd i mewn i ysgolion i gynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ac i gynnig cymorth o amgylch y sesiynau hynny i ddarparu gwasanaeth cwnsela a chymorth i blant a phobl ifanc sy'n datgelu o ganlyniad, ac i'r athrawon a'r staff sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc hyn. Mewn cyferbyniad, rhoddodd Cydgysylltydd Cam-drin Domestig Tor-faen wybod am ddiffyg gwasanaethau cymorth digonol ar gyfer pobl ifanc sy'n datgelu camdriniaeth o ganlyniad i waith codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion yno. Nid oedd unrhyw weithiwr plant mewn lloches, ac nid oedd gwasanaethau cwnsela a gwasanaethau iechyd meddwl plant yn gallu ymdopi. Mae'r Pwyllgor yn amlwg yn pryderu ynglŷn â chael llwybr diogel, eglur i'r holl blant a phobl ifanc yn y sefyllfa honno gyrchu help a chymorth.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu i argymhellion 8 a 9 helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon.

**Argymhelliad 14**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ariannu gwaith i werthuso gwaith ataliol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gyda phlant mewn ysgolion ac mewn amgylcheddau addysgol eraill ledled Cymru. Dylid cwblhau'r ymchwil hon fel mater o frys. Ar sail ei darganfyddiadau, Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi cyfarwyddyd i ysgolion a sefydliadau gwirfoddol a statudol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a'r cyfarwyddyd hwnnw i fanylu ar gydrannau allweddol rhaglen atal effeithiol. Y cyfarwyddyd i'w gyhoeddi erbyn mis Mai 2009. Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi mecanwaith ar waith i fonitro gweithredu'r cyfarwyddyd.

Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn mewn adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

**Argymhelliad 15**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ariannu gwaith i werthuso:

- pa wasanaethau cymorth sydd ar gael i blant sy'n datgelu cam-drin domestig o ganlyniad i waith ataliol mewn ysgolion ac amgylcheddau ieuenctid, a,
- digonolrwydd trefniadau presennol ar gyfer hyfforddi athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn enwedig o ran trin datgeliadau cam-drin domestig.

Nod yr ymchwil hon fydd nodi bylchau mewn darpariaeth, dwyn sylw at arfer gorau i'w rannu ledled Cymru, a nodi lle mae angen ariannu neu gymorth ychwanegol i alluogi darparwyr sector statudol a gwirfoddol i gydweithio i gyflenwi gwasanaeth cymorth yn gyson.

Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

**Gwaith ataliol cyffredinol gydag oedolion**

6.4.6 Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod pwysigrwydd codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, ac o annerbynioldeb trais a chamdriniaeth ymhlith oedolion. Roedd llawer o gyfranwyr sy'n gweithio i fynd i'r afael â cham-drin domestig mewn gwahanol rannau o Gymru'n ystyried bod codi ymwybyddiaeth a herio agweddau ymhlith pob rhan o'r boblogaeth yn gydran hanfodol o waith ataliol. Pwysleisiodd Cymorth i Fenywod Cymru Caerdydd na ddylid dargyfeirio ariannu o wasanaethau ar y rheng flaen i gefnogi'r agenda atal. Ystyriwyd bod gan Lywodraeth y Cynlluniad rôl i'w chwarae mewn ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, newid agweddau a chwalu mythau, gan gynnwys y rheini sydd â'r nod o helpu mudiadau'r sector gwirfoddol i

recriwtio gwirfoddolwyr. Canmolwyd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth Llywodraeth yr Alban.

6.4.7 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n argymell bod gan awdurdodau lleol bolisïau gweithle ar gam-drin domestig, ond nid yw'n orfodol, ac yn ystod ymweliad rapporteur ag un awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru fe nodwyd nad oedd unrhyw bolisi gweithle ar waith.

**Argymhelliad 16**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda chyrff sy'n bartneriaid i ddatblygu strategaeth wybodaeth genedlaethol i gefnogi rhoi'r strategaeth cam-drin domestig ar waith. Dylai'r strategaeth:

- Gefnogi rhoi polisïau gweithle ar waith mewn sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru
- Nodi ffyrdd y gellir rhoi cyhoeddusrwydd effeithiol i'r mathau a ganlyn o wybodaeth:

    - Manylion gwasanaethau cymorth sydd ar gael i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt
    - Cyngor ar ffynonellau cyngor cyfreithiol
    - Deunyddiau sy'n herio agweddau ynglŷn â derbynioldeb trais a chamdriniaeth a mythau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff sy'n bartneriaid iddi gynnwys cynrychiolwyr grwpiau penodol, er enghraifft, y rheini o gymunedau neu gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, i sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch, o ran yr iaith neu'r ffurf y mae'n cael ei chynhyrchu ynddi ac o ran y lleoedd y mae'n cael cyhoeddusrwydd, a'i bod yn briodol i bob grŵp targed.

Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

**Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant gyda gweithwyr y sector cyhoeddus**

6.4.8 Mae'r Pwyllgor yn deall hollbwysigrwydd sicrhau bod gweithwyr mewn ystod o feysydd gwasanaeth allweddol yn nodi pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, ac yn ymateb yn gyson iddynt. Ymhlith yr enghreifftiau mae: yr heddlu, ynadon a gweithwyr cyfiawnder troseddol eraill, staff llysoedd teulu, meddygon teulu, staff adrannau damweiniau ac achosion brys, bydwragedd a gweithwyr iechyd eraill, athrawon, gweithwyr adrannau tai awdurdodau lleol a gweithwyr y gwasanaeth cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn nifer o feysydd, o ran yr hyfforddiant sy'n cael ei gyflenwi fel cydran o hyfforddiant generig ar gyfer pob gweithiwr mewn maes penodol, ac o ran yr hyfforddiant arbenigol sy'n cael ei gyflenwi i rai gweithwyr penodol sy'n fwy tebygol na'u cydweithwyr o ddod i gysylltiad â phobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw hyfforddiant bob amser

yn orfodol ar gyfer personél gwasanaethau plant a swyddogion yr heddlu, a bod yna hen ddigon o le i wella mewn nifer o feysydd.

**Argymhelliad 17**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu adroddiad Gweinidogion ar y cyd i'r Pwyllgor ar y trefniadau presennol i sicrhau bod gweithwyr yn yr amgylcheddau a ganlyn yn gallu nodi a chefnogi pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt (yn achos darpariaeth gwasanaethau uniongyrchol ac yn achos eu hatgyfeirio neu eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol):

- Amgylcheddau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd
- Adrannau tai awdurdodau lleol a landlordiaid tai cymdeithasol
- Ysgolion ac amgylcheddau addysg ac ieuenctid eraill
- Llysoedd teulu
- Adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd drafod â Llywodraeth y DU i nodi trefniadau ar gyfer hyfforddi swyddogion yr heddlu, ynadon a gweithwyr cyfiawnder troseddol eraill.

Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd erbyn mis Mai 2009 ar y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod staff sy'n gweithio yn y meysydd hyn yn gallu nodi anghenion pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, ac ymateb iddynt. Dylid cynnwys adroddiadau cynnydd pellach yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

6.4.9 Pwysleisiodd nifer o gyfranwyr yr angen hanfodol am ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ymhlith grwpiau proffesiynol allweddol. Galwodd Cymorth i Fenywod Cymru, er enghraifft, am hyfforddiant gorfodol ar gyfer gweithwyr cyfiawnder troseddol (gan gynnwys pob swyddog yr heddlu a phob ynad), gyda NCH Cymru (dan eu henw newydd Gweithredu dros Blant) yn mynegi pryderon ynghylch diffyg ymwybyddiaeth ymhlith staff llysoedd teulu. Nododd y Pwyllgor nad oedd y dystiolaeth a dderbyniwyd oddi wrth wahanol gyfranwyr yn cyfateb o ran y graddau y mae'r staff hyn wedi cael hyfforddiant, felly byddai'r Pwyllgor yn dymuno cael sicrwydd bod digon o sylw wedi'i roi i'r maes hwn. Ystyriwyd bod athrawon a gweithwyr adrannau tai hefyd yn grŵp allweddol y mae hyfforddiant cam-drin domestig yn hanfodol iddynt. Nododd nifer o gyfranwyr Lwybr Cam-drin Domestig Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd Llywodraeth y Cynulliad fel enghraifft o arfer da.

Dywedodd yr NSPCC:

"Mae codi ymwybyddiaeth yn un o'r materion allweddol, yn bendant ar gyfer gweithwyr proffesiynol, fel ymwelwyr iechyd a nyrsys mamolaeth yn achos menywod beichiog. Rydym yn gwybod bod y perygl o gam-drin domestig yn fwy bryd hynny. Felly, os yw pobl yn ymwybodol o'r ffaith hwnnw, gallant fod yn fwy gwyliadwrus, a gallant archwilio rhai o'r materion hynny. Dylai staff sy'n gweithio mewn ysgolion fod yn ymwybodol o sut gall cam-

drin domestig ddod i'r amlwg yn ymddygiad plentyn. Efallai y bydd ymddygiad yn newid – gall unigolyn ifanc fod hyd yn oed yn rhagori ar ddisgwyliadau yn yr ysgol, oherwydd efallai ei fod yn meddwl, "Os ydw i'n dda ac yn cyflawni yn yr ysgol, ni fydd dad yn taro mam mwyach'. Dylai staff fod yn ymwybodol o'r holl ffyrdd y gall hynny ddod i'r amlwg. Mae'n gymhleth iawn. Yr allwedd i ddarparu cymorth a lleoedd i bobl ifanc risg isel allu troi iddynt yw i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc fod â'r ymwybyddiaeth honno".

Rhoddodd rhai cyfranwyr enghreifftiau o'r problemau sy'n gallu codi pan mae lefelau ymwybyddiaeth gweithwyr proffesiynol yn wael. Mynegodd Cymorth i Fenywod Cymru bryder ynghylch staff llysoedd:

"Mae'r dedfrydu ar gyfer digwyddiadau sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn brif bryder i Cymorth i Fenywod Cymru a'n haelodau. Mae dedfrydau ar gyfer digwyddiadau sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn amhriodol byth a hefyd; mae'r ffaith mai'r dedfrydau mwyaf cyffredin ar gyfer rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig yw gorchmynion rhwymo a dirwyon yn achosi problemau mawr.

**6.5 Rhaglenni tramgwyddwyr**

6.5.1 Mae rhaglenni tramgwyddwyr wedi'u datblygu i geisio helpu tramgwyddwyr i newid eu hymddygiadau a'u hagweddau annerbyniol. Mae yna amrywiad yn y ddarpariaeth o raglenni tramgwyddwyr ledled Cymru o ran y modelau a ddefnyddir a'r amseroedd aros. O fewn y system cyfiawnder troseddol, datblygwyd y Rhaglen Cam-drin Domestig Integredig i weithio'n benodol gyda thramgwyddwyr sydd wedi'u collfarnu yn y gymuned, ac mae wedi'i chyflenwi yn yr amgylchedd carchardai. Mae mudiadau'r sector gwirfoddol hefyd yn cyflenwi rhaglenni tramgwyddwyr, ac mae Llywodraeth y DU wedi cefnogi llawer ohonynt.

6.5.2 Ymhlith y materion neu bryderon allweddol a godwyd gan gyfranwyr ynghylch rhaglenni tramgwyddwyr mae:

- Anawsterau methodolegol wrth werthuso rhaglenni tramgwyddwyr, a dangos eu bod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â cham-drin domestig, yn enwedig o ran gwerthuso effeithiolrwydd rhaglenni yn y gymuned.
- Diffyg ariannu cynaliadwy ar gyfer rhaglenni tramgwyddwyr, yn enwedig y rheini y mae'r sector gwirfoddol yn eu darparu. Roedd rhai cyfranwyr o'r farn bod rhaglenni tramgwyddwyr cymunedol yn bwysig iawn ar gyfer tramgwyddwyr 'nad ydynt wedi'u collfarnu', ac er mwyn mynd i'r afael â rhestrau aros hir i gyrchu rhaglenni.
- Ystyriwyd bod dull cymunedol cydlynol o drin cam-drin domestig yn hanfodol i amddiffyn dioddefwyr ac adsefydlu troseddwyr, gan ystyried bod Trefniadau Aml-asiantaeth er Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) a Chynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC) yn enghreifftiau o arfer da. Mae'r modelau hyn wedi'u seilio ar gyfnewid gwybodaeth, ac mae'n ofynnol i bob asiantaeth gydweithio mewn modd cydlynol. Roedd rhai cyfranwyr o'r farn bod angen mwy o eglurder ynghylch

materion diogelu data i hwyluso rhannu gwybodaeth yn well rhwng asiantaethau, yn enwedig ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae mwyafrif y rhaglenni tramgwyddwyr yn canolbwyntio ar ddiogelwch dioddefwyr, ac ystyriwyd bod rôl gweithwyr diogelwch menywod yn bwysig iawn. Yn y gwasanaeth prawf, mae gweithwyr diogelwch menywod yn darparu cymorth i bartneriaid y dynion ac yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth o'r naill gyfeiriad i'r llall. Ystyriwyd bod hyn yn "gwbl hanfodol' wrth amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig.

- Nodwyd pwysigrwydd adeiladu ymwybyddiaeth o drais rhywiol ym mhob rhaglen tramgwyddwyr, a mynd i'r afael â hyn.

6.5.3 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth o raglenni cymunedol ar gyfer rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig nad ydynt wedi'u collfarnu o unrhyw drosodd. Roedd y Pwyllgor hefyd yn gwerthfawrogi pryderon tystion ynglŷn â'r peryglon posibl sy'n gysylltiedig â chyflenwi rhaglenni anrheoledig nad ydynt wedi'u seilio ar dystiolaeth ac nad ydynt wedi'u gwerthuso.

6.5.4 Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r rheini sy'n teimlo'n gryf y dylid rheoleiddio unrhyw waith a wneir gyda rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig, i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw safonau gofynnol ac yn bodloni meini prawf penodol iawn. Mynegwyd pryderon bod rhai rhaglenni nad ydynt wedi'u seilio ar fodelau cydnabyddedig yn cael eu sefydlu heb eu rheoleiddio, a theimlwyd y gallai hyn fod yn beryglus i ddioddefwyr. Dygwyd sylw at y ffaith nad yw'r hyfforddiant neu'r wybodaeth iawn o fewn cyrraedd rhai mudiadau gwirfoddol i asesu risg pobl yn briodol, ac y gallai rhaglenni a gyflwynir yn wael mewn gwirionedd gynyddu'r perygl o gam-drin domestig.

6.5.5 Roedd rhai cyfranwyr o'r farn bod Cyfiawnder Adferol yn ffordd effeithiol o weithio gyda rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig, gan nodi bod y rhaglen SORI yn Ngharchar EM Caerdydd yn enghraifft o arfer da. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod barn wedi'i hollti ynglŷn â defnyddio cyfiawnder adferol fel ymyriad cam-drin domestig. Roedd rhai cyfranwyr yn teimlo bod yna risgiau ynghlwm â defnyddio cyfiawnder adferol, yn enwedig yn achos troseddwyr risg uchel a'r rheini sy'n dal i fod mewn perthnasoedd treisiol. Roedd eraill yn teimlo'i fod yn nodi bwlch yn y ddarpariaeth ac yn ymateb iddo, yn enwedig trwy ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr. Adroddodd Cymorth i Ddioddefwyr Gwent, sy'n gweithio gyda phartneriaid y rheini sy'n cymryd rhan yn y rhaglen SORI yng Ngharchar EM Caerdydd, ar farn dioddefwr cam-drin domestig a gymerodd ran yn rhaglen SORI ac a gafodd hi'n ddefnyddiol wrth 'gael diweddglo' a symud ymlaen yn bositif yn ei bywyd.

"Fe gysylltais ag un o'r menywod rwyf wedi'i chefnogi, sydd wedi gwneud y rhaglen Rhyddid ac a fu'n cymryd rhan yn y Rhaglen Cam-drin Domestig Integredig ; mae hi bellach yn gweithio gyda Cymorth i Fenywod. Gofynnais iddi roi un datganiad i mi o'u safbwynt hi fel dioddefwr trosedd, yr oeddwn wedi'i chefnogi trwy'r rhaglen SORI, y gallwn ddod ag ef i'r pwyllgor i ddweud beth oedd wedi'i roi iddi. Rhoddodd un gair i mi – 'diweddglo' – a oedd yn anferthol. Dywedodd ei bod yn berson gwell, yn fam well ac yn aelod gwell o'r gymdeithas oherwydd na fyddai'n derbyn y driniaeth roedd wedi'i chael. Rhoddodd hyder iddi, a'r ddealltwriaeth o'r hyn roedd y rhaglen Rhyddid, Cymorth i

Fenywod, aelodau’r teulu ac ati wedi'i ddweud wrthi – mai nid ei bai hi oedd hyn: fe gymerodd tramgwyddwr i'w chael i gredu hynny. Roeddwn i’n meddwl bod hynny’n anferthol; dyna beth sy’n ei wneud yn real, a dyna rydw i’n dod ag ef i’r bwrdd heddiw.”

**Cymorth i Ddioddefwyr Gwent**

6.5.6 Yn achos rhaglenni statudol ar gyfer rhai sydd wedi’u collfarnu o gam-drin y mae'r gwasanaethau carchar a phrawf yn eu rhedeg (ac y mae Llywodraeth y DU yn eu hariannu), mae’n ymddangos bod ganddynt ffocws cryf ar asesu risg a chael eu gwerthuso’n dda, er y dygodd cyfranwyr sylw at broblemau o ran amseroedd aros a chyfraddau’r rhai sy’n rhoi’r gorau iddynt.

“Mae gan raglenni llwyddiannus yn Ewrop ac yn y wlad hon nodweddion allweddol rydym yn ceisio’u hatgynhyrchu yn y peilot SORI, sef rhywbeth rydym ar fin ei wneud gan ddefnyddio grant y Swyddfa Gartref rydym wedi’i dderbyn. Rydym yn pryderu ynghylch trefniadau diogelu ar gyfer dioddefwyr a gweithdrefnau ar gyfer gwirio gwirfoddoliaeth – mae’n rhaid i bob carfan fod yno o’u gwirfodd; rhaid iddynt beidio â bod wedi’u gorfodi i fod yno. Mae angen bod â dull aml-asiantaeth o weithredu – ac rydym yn edrych ar y model cynadleddau asesu risg aml-asiantaeth, gan ei fod wedi bod yn llwyddiannus. Mae angen i wasanaethau cymorth fod ar gael cyn ac ar ôl unrhyw ymyriad adferol. Mae angen digon o adnoddau staff i sicrhau diogelwch, ac mae angen goruchwyliaeth a hyfforddiant trwyadl.”

**Cydgysylltydd Cyfiawnder Adferol, Carchar EM Caerdydd**

**Argymhelliad 18**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru werthuso argaeledd ac effeithiolrwydd rhaglenni tramgwyddwyr cymunedol y mae mudiadau’r sector gwirfoddol yn eu cyflenwi, ac sydd ar agor i rai sydd wedi cyfaddef eu bod yn cyflawni cam-drin domestig ond nad ydynt wedi’u collfarnu o unrhyw drosedd. Ar sail ei darganfyddiadau, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd i gomisiynwyr gwasanaethau sy’n nodi cydrannau arfer effeithiol ac sy’n gosod safonau gofynnol ar gyfer rhaglenni o’r fath.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda chyrff sy’n bartneriaid iddi i sicrhau mai dim ond darparwyr gwasanaeth sy’n gallu bodloni’r safonau gofynnol, ac sy’n cyflenwi gwasanaeth effeithiol, sy’n cael eu hariannu i ddarparu gwasanaethau o’r fath.

Y gwerthusiad a’r cyfarwyddyd i’w cwblhau erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hyn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

## 6.6 Ariannu

6.6.1 Mae trefniadau ariannu ar gyfer darparu gwasanaethau ac ymyriadau â’r nod o atal, a chefnogi pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, yn gymhleth. Mae ystod o gyrff datganoledig, cyrff nad ydynt wedi’u datganoli a chyrff elusennol yn ariannu sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau o’r fath yng Nghymru, gan gynnwys:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Adrannau Llywodraeth y DU, gan gynnwys y Swyddfa Gartref a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder a hefyd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr
- Ystod eang o gyrff dyfarnu grantiau, fel y Gronfa Loteri Fawr, Plant mewn Angen y BBC, a Lloyds TSB
- Sefydliadau statudol fel awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaethau carchar a phrawf
- Cyrff partneriaeth statudol, fel Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

6.6.2 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n gweithredu cylch ariannu tair blynedd ar gyfer mudiadau’r sector gwirfoddol, ond nid felly llawer o gyrff ariannu eraill. Mae nifer o ffrydiau ariannu, yn ogystal â’u gwahanol feini prawf cymhwyster, amserlenni, gweithdrefnau gwneud cais a gofynion monitro, yn rhoi pwysau sylweddol ar rai darparwyr gwasanaeth. Mae’n hanfodol bod Gweinidogion cyfrifol Cymru’n gweithio’n agos â’u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU i sicrhau bod y sefyllfa hon yn cael cyn lleied â phosibl o effaith negyddol ar gyflenwi gwasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru.

> “Mae strategaeth (Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn dda ond oni bai bod gennych chi'r bobl ar lawr gwlad i wneud y gwaith, beth yw’r pwynt? Mae angen ariannu priodol sy’n mynd yn syth i grwpiau lleol ar lawr gwlad".
>
> **Uned Diogelwch rhag Cam-drin Domestig**

**6.6.3 Mae’r thema fwyaf eglur a mwyaf cyffredin i ddod i’r amlwg o dystiolaeth a ddarparwyd gan gyfranwyr yn ymwneud â diffyg ariannu cynaliadwy.** Mae cyfranwyr wedi dadlau bod y trefniadau ariannu presennol yn rhwystro gweithredu Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft:

- Mae cynllunio a darparu gwasanaeth yn cael ei rwystro ac weithiau ei sgiwio yn ôl blaenoriaethau cyllidwyr yn hytrach nag yn ôl meysydd angen asesedig a dangosadwy. Un enghraifft o hyn y rhoddwyd gwybod amdani fyddai’r pwysau ar sefydliadau i ddarparu gwasanaethau i fenywod a dynion, ar draul gwasanaethau i fenywod yn unig. Un enghraifft arall y rhoddwyd gwybod amdani fyddai’r meini prawf ar gyfer ariannu Cefnogi Pobl nad yw’n cefnogi datblygu gwaith allgymorth
- Mae cystadleuaeth hefyd yn sgiwio’r ddarpariaeth gwasanaeth, boed yn gystadleuaeth rhwng sefydliadau darparwyr am gyfleoedd ariannu cyfyngedig

neu'n gystadleuaeth o ganlyniad i'r pwyslais ar achosion risg uchel sy'n lleihau swm yr ariannu sydd ar gael ar gyfer gwaith ataliol a gwaith ymyriad cynnar

- Mae ariannu tymor byr yn arwain at gontractau staff tymor byr sy'n cael effaith negyddol ar ymdrechion i recriwtio a chadw staff profiadol a chymwysedig
- Nid oes unrhyw drefniadau i sicrhau parhad ariannu ar gyfer cynlluniau peilot effeithiol unwaith y daw ariannu prosiect tymor byr i ben
- Mae'r galwadau biwrocrataidd sydd ynghlwm â gorfod gwneud cais am nifer o ffrydiau ariannu, a darparu gwahanol ddata monitro pan fu ceisiadau'n llwyddiannus, yn gosod treth sylweddol ar adnoddau staff
- Mae rhai tystion wedi dadlau nad yw partneriaid statudol yn cyfrannu at brosiectau sy'n eu helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau eu hunain, er enghraifft, trwy'r gwasanaethau y mae Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn eu darparu
- Mae diffyg ariannu cynaliadwy'n effeithio ar argaeledd gwasanaethau ar gyfer grwpiau ag anghenion penodol, er enghraifft, plant a phobl ifanc, pobl anabl a hŷn, a phobl o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu gymunedau ffydd.

Dygir sylw isod at rai enghreifftiau o bryderon penodol ynghylch diffyg ariannu cynaliadwy yn achos pedwar math penodol ar ddarpariaeth:

**6.6.4 Gweithwyr plant:** Er gwaethaf ariannu y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sicrhau ei fod ar gael i Cymorth i Fenywod Cymru ar gyfer gweithwyr plant, ystyriwyd bod ariannu cyffredinol gweithwyr plant mewn llochesau a gweithwyr plant allgymorth yn "dameidiog", gydag ystod o sefydliadau eraill yn darparu ariannu i lenwi'r bwlch, gan gynnwys awdurdodau lleol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Plant mewn Angen y BBC a Comic Relief. Yn ôl y rheini a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor, gan gynnwys Cymorth i Fenywod Cymru, Grwpiau Cymorth i Fenywod lleol a Plant mewn Angen, sydd wedi darparu ariannu ar gyfer gweithwyr plant am nifer o flynyddoedd, nid yw lefel y cymorth arbenigol ar gyfer plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn ddigonol. Mae'r sefydliadau hyn a sawl un arall wedi galw am ariannu craidd, rhywbeth yn debyg i'r hyn y mae Llywodraeth yr Alban yn ei ddarparu (gweler isod).

> "Mae wedi dod yn hollol eglur dros gryn amser bod dibyniaeth rhai sefydliadau ar ein hariannu ar gyfer yr hyn y gellir ond ei ystyried yn wasanaethau craidd, hanfodol er lles plant sydd yn y sefyllfaoedd mwyaf agored i niwed, yn tyfu i gyfran nad yw'n gynaliadwy. Mae gennym hanes hir o ymrwymiad i'r sector hwn, ac i'r plant yn y sector hwn. Rydym yn poeni na allwn gynnal ariannu ar y lefel honno, a phwrpas fy mhapur i yw dangos breuder y cyfundrefnau ariannu sy'n bodoli. Mae'n ymddangos bod rhai gwasanaethau'n cael eu hariannu fel ychwanegyn dewisol, pan mae'n amlwg nad dyna yw'r gofyniad: mae'r rhain yn wasanaethau hanfodol."
>
> **Plant mewn Angen y BBC**

**6.6.5 Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol**: Yn ystod ymweliad rapporteur â Chanolfan Gefnogaeth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru, clywodd Mark Isherwood AC nad oedd ariannu ar gyfer partneriaeth sy'n ymwneud â chyflenwi Canolfan

Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, sydd i fod i gael ei lansio yn ddiweddarach eleni, yn ei le hyd yma, ac eithrio ariannu heddlu Gogledd Cymru. Mae Lloyds TSB wedi dyfarnu arian ac mae ceisiadau eraill wedi'u gwneud, gan gynnwys cais i'r Swyddfa Gartref. Mae Cyfarwyddwr y Ganolfan Gefnogaeth Trais a Cham-drin Rhywiol, sy'n bartner allweddol yn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, wedi dadlau bod dyfarnu arian am flwyddyn yn "cadw sefydliad mewn argyfwng". Dylai ariannu ar gyfer Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol estyn y tu hwnt i ariannu cyfalaf craidd, i sicrhau bod yr ystod lawn o wasanaethau y maent yn eu cynnig yn cael eu hariannu ar sail gynaliadwy yn y tymor hir.

"Mae'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yno, mae'n digwydd, ond nid yw unrhyw un yn siŵr eto sut bydd yn gweithio a phwy sy'n gwneud beth, pryd na sut. Beth fyddai'n newid bywyd yn ddramatig fyddai gweithiwr gweinyddiaeth, ond nid oes potyn o arian ar gyfer hyn ac rydym yn ymladd tân trwy'r amser.

"Nid oes unrhyw ariannu yn ei le ar gyfer y dyfodol. Rydym yn gwneud cais am y Loteri Fawr. Pe gallem gael arian grant am bum mlynedd sydd o leiaf yn hanner yr hyn sydd ei angen arnom, fe allem gynllunio ar gyfer y dyfodol a defnyddio hwnnw i ddwyn pwysau wrth geisio sicrhau gweddill yr ariannu.

"Mae angen help arnom ni. Mae'r ffaith nad oes gennym ddigon o adnoddau'n llesteiriol, ond rydym ni yma oherwydd ein bod yn gofidio am y bobl rydym yn gweithio gyda nhw."

**Canolfan Gefnogaeth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru**

**6.6.6 Llysoedd Sy'n Arbenigo Mewn Trais Domestig / Eiriolwyr/Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig:** Dadl Prif Erlynydd y Goron dros Wasanaeth Erlyn y Goron yn Ne Cymru, ymhlith eraill, oedd y dangoswyd bod Llysoedd Sy'n Arbenigo Mewn Trais Domestig wedi bod yn effeithiol wrth gynyddu nifer yr erlyniadau llwyddiannus yn erbyn rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig. Mae Eiriolwyr/Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn gydran ganolog o'u llwyddiant, ond eto nid yw'r rôl yn denu ariannu sicr. Mae Prif Erlynydd y Goron dros Wasanaeth Erlyn y Goron yn Ne Cymru wedi argymell y byddai ariannu sicr ar gyfer y rôl Eiriolwyr/Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn cynrychioli newid pwysig i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt. Yn Wrecsam, roedd Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig wedi'i hyfforddi ac yn ei swydd am 14 mis cyn dychwelyd i gyflogaeth fwy sicr gyda'r awdurdod lleol. Y gred oedd bod deiliad y swydd wedi ymddiswyddo oherwydd ansicrwydd y sefyllfa ariannu ar gyfer y swydd Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig.

**6.6.7 Mynediad at Gymorth Cyfreithiol:** Dygodd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol sylw at newidiadau i'r rheolau cymhwyster ariannol ar gyfer cymorth cyfreithiol mewn achosion cam-drin domestig a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2007, sy'n nodi bod dioddefwyr cam-drin domestig yn grŵp blaenoriaeth. Fodd bynnag, nodwyd nad yw'r ariannu wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith cam-drin domestig ac nad yw wedi'i sicrhau ar gyfer y dyfodol.

6.6.8 Canmolodd nifer o gyfranwyr fodel ariannu Llywodraeth yr Alban. Mae gan Lywodraeth yr Alban dair llinell ar wahân yn y gyllideb ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod,

Gweithwyr Plant mewn llochesau Cymorth i Fenywod, a Chanolfannau Argyfwng Trais Rhywiol[16], a oedd yn werth cyfanswm o ychydig yn fwy na £7.9 miliwn yn 2008-09.

**Argymhelliad 19**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgymryd ag adolygiad o bob ffrwd ariannu a allai fod ar gael ar gyfer darparwyr statudol, darparwyr gwirfoddol a darparwyr eraill gwasanaethau i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, gan gynnwys Cefnogi Pobl, erbyn mis Mai 2009. Dylai'r adolygiad gynnwys asesu p'un a yw mecanweithiau ariannu posibl presennol yn hwyluso darparu'r ystod o wasanaethau sydd eu hangen i gefnogi pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, yn ystod y cyfnodau ymyriad cynnar, argyfwng ac ôl-argyfwng. Dylai'r adolygiad hefyd asesu effaith mecanweithiau ariannu ar recriwtio a chadw staff i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Yna dylid cynnwys adroddiadau cynnydd pellach fel adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

**Argymhelliad 20**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu ariannu craidd ar gyfer gwasanaethau allweddol i blant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, gan gynnwys:

- Gweithwyr plant a phobl ifanc mewn llochesau
- Gweithwyr allgymorth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi symud ymlaen o lety lloches
- Gwasanaeth cwnsela
- Eiriolaeth
- Gwasanaethau iechyd meddwl (CAMHS)

Dylid sicrhau ariannu craidd cynaliadwy erbyn mis Mai 2009.

6.6.9. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi nodi llawer o'r problemau sy'n gysylltiedig â diffyg ariannu cynaliadwy yn ei ymchwiliad blaenorol i ariannu'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

**Argymhelliad 21**

Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod argymhellion Ymchwiliad blaenorol y Pwyllgor i ariannu'r sector gwirfoddol yng Nghymru'n cael eu rhoi ar waith yn amserol, yn enwedig adolygu cynnydd ar argymhellion 8-14 sy'n ymwneud â darpariaeth ariannu hygyrch a chynaliadwy, ac adrodd ar yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant cyn gynted â phosibl ac erbyn mis Mai 2009 fan bellaf. Dylid cynnwys adroddiadau pellach yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

[16]Gweler Llywodraeth yr Alban *A funding overview for VAWFS, CSWAF and RCSF, plus a list of projects successful in securing VAWFS for 2008-11* .http://www.scotland.gov.uk/Topics/People/Equality/violence-women/Successful

6.6.10 Mae cyfraddau collfarnu mewn achosion cam-drin domestig yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol mewn blynyddoedd diweddar, ac mae'r Pwyllgor yn croesawu rôl y Llysoedd Sy'n Arbenigo Mewn Trais Domestig, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn hyn o beth. Mae'n dymuno gweld ariannu sicr ar gyfer y mentrau hyn i sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol o fewn cyrraedd mewn modd sydd yr un mor ddiogel a chyflym i ddioddefwyr cam-drin domestig ym mhob rhan o Gymru. Dygodd tystiolaeth oddi wrth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol sylw at rai problemau â diffyg gwybodaeth am gymorth cyfreithiol a chost cyngor cyfreithiol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiwn yn ystyried cyflwyno ffi sefydlog am achosion cam-drin domestig er mwyn osgoi unrhyw gamarferion yn y system i bobl sydd eisoes yn agored i niwed. Dygwyd sylw hefyd at y diffyg cymorth i ddioddefwyr pan maent yn cyrraedd y llys drwy ei waith gyda dioddefwyr cam-drin domestig yn Ne-Ddwyrain Lloegr.

> "Problem arall yw'r diffyg cymorth pan fydd pobl yn cyrraedd y llys, sy'n siomedig i ni ei glywed, oherwydd ein bod yn gwybod bod Cymorth i Ddioddefwyr yn bresennol yn y llys a bod staff gwasanaeth y llysoedd wedi ymrwymo i sicrhau bod y profiad yn y llys mor bleserus â phosibl. Fodd bynnag, mae pobl wedi dweud wrthym yn aml eu bod wedi cael eu gadael ar eu pennau eu hunain, neu eu bod wedi gweld y sawl sydd wedi ymosod arnynt yn agos gyda'i deulu neu gyda'i theulu, a'i fod wedi bod yn brofiad amhleserus a brawychus iddynt. Felly, y cwbl y gallwn ei wneud yw rhoi gwybod am y profiadau hynny a cheisio cydweithio ag eraill i wneud yn siŵr na fyddant yn digwydd eto."
>
> **Pennaeth Polisi Teulu, y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol**

**Argymhelliad 22**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag adrannau perthnasol Llywodraeth y DU fel mater o frys, i sicrhau bod yr holl bartneriaid allweddol sy'n ariannu Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, Llysoedd Sy'n Arbenigo Mewn Trais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn cael ariannu craidd, i'r graddau y bydd y gwasanaethau hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir. Dylid sicrhau ariannu cynaliadwy erbyn mis Mai 2009.

Yna dylid cynnwys cynnydd yn y maes hwn fel adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

### 6.7 Gweithio aml-asiantaeth a threfniadau strategol

6.7.1 Mae *Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998*, fel y'i diwygiwyd, yn gosod cyfrifoldeb ar bartneriaethau awdurdodau lleol, yr heddlu, awdurdodau tân a byrddau iechyd lleol mewn partneriaeth ag eraill i ffurfio a gweithredu strategaethau lleol ar gyfer lleihau trosedd ac anhrefn a lleihau achosion camddefnyddio sylweddau. Mae strategaeth cam-drin domestig

Llywodraeth Cynulliad Cymru'n nodi mai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol "*fydd y prif gyfrwng i roi'r strategaeth hon ar waith*".

Mae'r Strategaeth yn argymell ymgorffori mesurau penodol â'r nod o fynd i'r afael â cham-drin domestig mewn Cynlluniau Diogelwch Cymunedol, a bod Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gweithio'n agos â Fforymau Cam-drin Domestig i gynorthwyo â'r gwaith hwn.

6.7.2 Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw pob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gweithio mor effeithiol ag y gall wrth gydlynu gweithredu i fynd i'r afael â cham-drin domestig.

"Y prif ffordd i helpu i ymladd cam-drin domestig yw gweithio mewn partneriaeth gyda'n gilydd; mae hyn yn hanfodol. Rhoddaf syniad ichi o'r hyn sy'n digwydd ledled Cymru o safbwynt cydgysylltydd. Bellach, mae yna 18 cydgysylltydd ledled Cymru, felly mae yna bron iawn un ar gyfer pob awdurdod lleol...

"Mae gan bob cydgysylltydd raddfa gyflog wahanol, swydd-ddisgrifiad gwahanol a llinell adrodd wahanol. Mae rhai yn adrodd i'r heddlu, mae rhai yn adrodd i'r awdurdod lleol, ac mae rhai yn elusennau cofrestredig yn eu rhinwedd eu hunain.

"Mae lefel blaenoriaeth cam-drin domestig yn wahanol ym mhob partneriaeth diogelwch cymunedol. Rwyf wedi bod yn gwneud rhywfaint o ymchwil yn y partneriaethau diogelwch cymunedol lleol ledled Cymru. Gwnaeth rhai partneriaethau diogelwch cymunedol fuddsoddi rhwng £20,000 a £60,000 tuag at gam-drin domestig yn eu cynllun diogelwch cymunedol y llynedd, a gwnaeth eraill fuddsoddi £2,000. Felly mae'n hollol wahanol ledled Cymru."

**Fforwm Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin**

6.7.3 Mae trefniadau ar gyfer cynllunio gwasanaethau ac ymyriadau cam-drin domestig a'u comisiynu'n amrywio'n sylweddol dros Gymru. Mae cyfranwyr wedi nodi nifer o enghreifftiau o'r hyn y maent yn ei ystyried yn arfer da mewn gweithio aml-asiantaeth, gan gynnwys grwpiau sydd, er enghraifft, â'r nod o fynd i'r afael â cham-drin domestig trwy leihau peryglon i blant neu oedolion sydd eisoes yn hysbys i asiantaethau sy'n bartneriaid, trwy rannu gwybodaeth, neu drwy nodi meysydd lle nad yw anghenion yn cael eu diwallu, a chomisiynu prosiectau peilot i'w diwallu.

"Mae'r Panel Gwasanaethau Plant wythnosol yn galluogi rhannu gwybodaeth a mynd i'r afael a nifer mawr o faterion cyn iddynt gyrraedd MARAC a hefyd ar ôl MARAC. Mae'r Aelodau'n cyfarfod bob wythnos ond rydym hefyd yn gweithio gyda'n gilydd rhwng un cyfarfod a'r llall. Bu'r Panel yn llwyddiant ysgubol ac rydym yn argymell y dylai pob ardal gael un."

**Panel Cam-drin Domestig Gwasanaethau Plant Cyngor Sir y Fflint**

6.7.4 Siaradodd cyfranwyr hefyd am eu pryderon a'u rhwystredigaethau ynghylch trefniadau strategol lleol ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.

> "Mae'n wych yn y cyfarfodydd; mae llawer o gytuno o amgylch y bwrdd, ond yna mae pobl yn mynd i ffwrdd ac yn cymryd am byth, a ninnau'n gorfod dod yn ôl i'r ganolfan a delio â'r broblem."
>
> **Canolfan Gefnogaeth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru**

6.7.5 Gan nad yw manteision cymharol trefniadau rhanbarthol wedi'u gwerthuso, nid yw'n eglur a yw modelau penodol yn fwy neu'n llai tebygol na modelau eraill o fod yn effeithiol wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig.

Ymhlith enghreifftiau o bryderon a godwyd gan gyfranwyr am y trefniadau presennol mae:

- Diffyg cydlyniad a gweithio cydgysylltiedig rhwng partneriaid allweddol mewn gwahanol rannau o Gymru
- Nododd nifer o gyfranwyr fod darparwyr gwasanaethau'r GIG yn methu ag ymgysylltu â'r agenda drawsbynciol i fynd i'r afael â cham-drin domestig
- Amrywiad sylweddol yn rôl a swydd cydgysylltwyr cam-drin domestig awdurdodau lleol
- Diffyg eglurdeb ynghylch pa sefydliadau sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau penodol, er enghraifft, cymorth dilynol i blant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig wedi effeithio arnynt, a gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig sydd ag anghenion cymhleth, fel y rheini sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl neu nam corfforol
- Diffyg gwybodaeth sy'n cael ei dal yn ganolog ac sy'n hawdd ei chyrchu, er enghraifft, rhestr o'r holl gydgysylltwyr cam-drin domestig ac eiriolwyr annibynnol ar drais domestig
- Nid yw oedolion a phlant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn cael eu cynnwys yn ddigonol wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau
- Nid yw'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol yn cael ei defnyddio i'w photensial llawn i yrru'r agenda cam-drin domestig ymlaen o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru ac yn eu plith
- Mae'r adnoddau ariannol sy'n ofynnol i gefnogi trefniadau strategol yn mynd ag arian ar draul gwasanaethau ar y rheng flaen
- Mae angen i Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol i sicrhau cysondeb arfer ledled asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru
- Gallai diffyg targedau corfforaethol neu ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â cham-drin domestig mewn rhai sefydliadau statudol ddargyfeirio adnoddau oddi wrth ddarpariaeth cam-drin domestig
- Mae sefydliadau cenedlaethol fel Cymorth i Ddefnyddwyr yn cael anawsterau wrth geisio ymgysylltu â noddwyr a rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru, oherwydd nifer y cyrff rhanbarthol dan sylw, a gwahaniaethau o ran ffiniau ar draws sectorau

- Gallai nifer y cyrff rhanbarthol sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau i ddioddefwyr cam-drin domestig fod yn arwain at ddyblygu ymdrechion ac, mewn rhai achosion, bylchau mewn gwasanaethau
- Nododd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru anawsterau'n codi o ddiffyg eglurdeb cyffredinol ynghylch y rheolau sy'n rheoli rhannu / trosglwyddo gwybodaeth a gwahanol gyfrifoldebau ac atebolrwyddau amrywiol sectorau a sefydliadau. Yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor, cydnabu Gweinidogion Cymru bwysigrwydd protocolau rhannu gwybodaeth a datgelu sy'n amddiffyn buddiannau dioddefwyr cam-drin domestig, gan gyfeirio at y protocol datgelu newydd rhwng CAFCASS a'r Heddlu
- Siaradodd rhai cyfranwyr am yr ewyllys da ymhlith y rheini sy'n cyfarfod mewn grwpiau aml-asiantaeth, ond y diffyg gweithredu dilynol, o bosibl oherwydd y sefyllfa y nododd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru uchod. Galwodd Canolfan Gefnogaeth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru am well rheolaeth a chyfeiriad i grwpiau cynllunio strategol
- Nododd y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ddiffyg cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig pan fyddant yn cyrraedd y llys, gan deimlo hefyd bod angen strategaeth wybodaeth genedlaethol i gyfeirio dioddefwyr at wasanaethau a chymorth.

6.7.6. Er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg cysondeb a chydlyniad presennol ar lefel strategol, ac er mwyn nodi arfer strategol da sy'n bodoli a gwneud y mwyaf ohono, mae'r Pwyllgor yn gwneud yr argymhelliad a ganlyn:

**Argymhelliad 23**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru werthuso effeithlonrwydd strwythurau cynllunio aml-asiantaeth a rôl y cydgysylltydd cam-drin domestig ym mhob cwr o Gymru o ran:

- Cynllunio a chomisiynu gwasanaethau;
- Rhannu gwybodaeth; a
- Rheoli risg

Yn benodol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru werthuso'r graddau y mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gweithredu fel cyfrwng effeithiol ar gyfer rhoi'r strategaeth ar waith yn lleol.

Dylid lledaenu darganfyddiadau'r gwerthusiad hwn i bob asiantaeth sy'n bartner, ynghyd â chyngor ar yr hyn sy'n gweithio, erbyn mis Mai 2009. Dylid cynnwys adroddiadau pellach fel adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

**Argymhelliad 24**

Llywodraeth Cynulliad Cymru i ofyn i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol:

- Ddangos yr hyn y maent yn ei wneud i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn eu hardal
- Darparu manylion yr adnoddau y mae pob partner statudol wedi'u neilltuo ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig
- Dangos sut bu dinasyddion a darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig yn chwarae rhan mewn cynllunio gweithredu i fynd i'r afael â cham-drin domestig
- Dangos unrhyw waith gyda'r system cyfiawnder troseddol i gefnogi rhaglenni ymyriad cynnar a dwyn sylw at unrhyw rwystrau rhag gweithio'n effeithiol, yn enwedig o ran cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau

Os na fydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cydymffurfio â'r cais, dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried sut gellid defnyddio pwerau ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol, sydd wedi'u cynnwys yn *Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998,* i wneud gweithredu o'r fath yn ofynnol i'r Partneriaethau.

Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

6.7.7 Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth sy'n awgrymu nad yw cyrff y GIG bob amser yn chwarae rôl sylweddol mewn ymdrechion aml-asiantaeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig.

"Rydym wedi gwneud cryn dipyn er 2005 i ddatblygu cyn gymaint o Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ag y gwnaethom, gan ei bod yn anodd dros ben gwneud hynny. Mae'n anoddach fyth cynnal Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol unwaith y byddwch wedi'i datblygu. Bydd y Swyddfa Gartref yn rhoi'r costau cychwyn ichi, ac rydym wedi cael arian ar gyfer cynghorwyr trais rhywiol annibynnol o fewn y swyddi hynny. Fodd bynnag, wedi hynny, dylai cyrff statudol ariannu Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol. Maent yn chwilio am bartneriaeth rhwng iechyd, Cymunedau yn Gyntaf, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r corff statudol. Rydym wedi datblygu'r tair canolfan yng Nghymru ymhellach. [….] Yr anhawster i ni yw nad ydym yn gallu cael yr awdurdod iechyd i ryngweithio â ni ar yr ariannu, ac mae'n frwydr enfawr i ni oherwydd ein bod yn methu â chael y bartneriaeth honno."

**Libby Jones, New Pathways**

6.7.8 Ymddengys fod y camddealltwriaeth ymhlith rhai gweithwyr iechyd proffesiynol ynghylch deddfwriaeth diogelu data yn rhwystr rhag rhannu gwybodaeth y GIG ag asiantaethau eraill. Nododd y Pwyllgor fod proses MARAC yn dangos y gall rhannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn briodol helpu i amddiffyn unigolion risg uchel, a bod pryderon ynglŷn â diogelu data wedi'u goresgyn i raddau ym maes cam-drin plant.

6.7.9 Mae tystiolaeth oddi wrth Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru hefyd yn dangos bod mwyafrif y menywod sy'n dioddef ymosodiad rhywiol neu drais domestig yn gyndyn dros ben o ymweld â chlinigau iechyd neu glinigau meddygaeth genhedlol-wrinol, sy'n ddealladwy oherwydd trawma'r profiadau y maent wedi'u dioddef. Mae canlyniadau dwys i hyn gan nad ydynt yn cael budd profion ceg y groth i ddarganfod canser ceg y groth, nac yn cael profion clefydau a drosglwyddir yn rhywiol. Mae'r rhain yn brofion hanfodol ar gyfer y menywod hyn o ystyried y profiadau y maent wedi'u cael. Mae'r Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn rhoi cyfle i fenywod gael gwasanaethau clinigau meddygaeth genhedlol-wrinol a phrofion ceg y groth mewn amgylchedd diogel, llai trawmatig, y gellir ymddiried ynddo. Trwy gynnal y clinigau hyn yn y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar gyfer y menywod hynny sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol neu drais domestig, byddai'r sefydliadau iechyd lleol yn darparu gwasanaeth iechyd hanfodol ar gyfer rhan hollbwysig o gymdeithas nad yw'n cael ei gwasanaethu ar hyn o bryd. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru edrych ar y posibilrwydd o fynd â gwasanaethau iechyd rhywiol i mewn i'r Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn hytrach na disgwyl i fenywod eu cyrchu trwy fynd i ysbytai a chlinigau. Byddai croeso i fwy o ymchwil yn y maes hwn (gweler Argymhelliad 26).

**Argymhelliad 25**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod cynrychiolwyr uwch y gwasanaeth iechyd yn chwarae rhan lawn mewn ymdrechion aml-asiantaeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig, yn enwedig trwy Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, gan nodi rhwystrau rhag cynnwys y GIG yn yr agenda cam-drin domestig, a helpu i'w goresgyn.

Er mwyn hwyluso hyn, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yn egluro goblygiadau deddfwriaeth diogelu data yn yr amgylchedd hwn. Dylid sicrhau bod y cyfarwyddyd hwn hefyd ar gael i gyrff meddygol a chyrff nyrsio. Y cyfarwyddyd i'w gyhoeddi erbyn mis Mai 2009. Dylid cynnwys adroddiadau pellach yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

6.7.10 Nododd nifer o gyfranwyr y Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol sydd wedi'i chynnwys yn *Neddf Cydraddoldeb 2006* fel mecanwaith i yrru'r agenda cam-drin domestig ymlaen mewn cyrff cyhoeddus, sef mecanwaith nad yw ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

"Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb rhywiol yn offeryn sylweddol y mae modd ei ddefnyddio i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn rhoi blaenoriaeth i'r mater hwn. Mae dyletswydd cydraddoldeb rhywiol yn gosod dyletswydd gyfreithiol i flaenoriaethu gweithredu ar feysydd mwyaf arwyddocaol anghydraddoldeb rhywiol ac rydym o'r farn, oherwydd difrifoldeb, graddfa ac effaith cam-drin domestig, y dylai awdurdodau lleol fod yn ystyried cam-drin domestig yn un o'r materion allweddol iddynt roi sylw iddynt wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol."

**Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

**Argymhelliad 26**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i nodi ffyrdd y gellid o bosibl defnyddio'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol a deddfwriaeth cydraddoldeb arall i fwrw ymlaen â chamau i fynd i'r afael â cham-drin domestig mewn cyrff cyhoeddus allweddol, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant erbyn mis Mai 2009.

### 6.8 Gwerthuso, monitro ac ymchwil

6.8.1 Gwnaeth llawer o'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ac ymyriadau â'r nod o atal cam-drin domestig a chefnogi dioddefwyr, a'r rheini sy'n ymwneud ag adsefydlu tramgwyddwyr, ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor o'r ffyrdd y maent yn monitro ac yn gwerthuso llwyddiant. Gwnaeth cyfranwyr nifer o argymhellion a fyddai, yn eu tyb nhw, yn arwain at roi egwyddorion Strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar waith yn fwy effeithiol. Gellir rhoi'r rhain mewn dau gategori eang:

**Gweithredu i gynyddu dealltwriaeth o gyffredinrwydd cam-drin domestig a'i natur**

6.8.2 Gwnaeth yr Athro Jonathan Shepherd o Ysbyty Athrofaol Cymru argymell dull gweithredu pedwar cam i wella sail tystiolaeth cam-drin domestig trwy gasglu data mewn ysbytai ac, yn benodol, Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

- Dylai fod gan holl Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru sydd ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys systemau gwybodaeth sy'n gallu nodi'r rheini sy'n mynychu drosodd a thro ac, yn benodol, y rheini sy'n mynychu drosodd a thro ac sydd wedi'u niweidio
- Dylai gweithredu ymarferol ddilyn casglu data sylfaenol. Mae model effeithiol yn golygu cael nyrs â chyfrifoldeb am ddadansoddi'r wybodaeth a gesglir i nodi dioddefwyr, ac yna cymorth ac atgyfeirio at sefydliadau perthnasol
- Cynnwys uwch ymarferwyr y GIG yn yr agenda diogelwch cymunedol, trwy ymwneud Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Archwiliad gorfodol o weithgarwch treisiol domestig fel rhan o'r rhaglen dreigl o archwiliadau clinigol yn ymddiriedolaethau GIG sydd ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

6.8.3 Nododd nifer o gyfranwyr feysydd lle y dylid, yn eu barn nhw, gwneud ymchwil i ddarparu sail ar gyfer llunio gwasanaeth ac arfer comisiynu. Ymhlith y rhain mae:

- Canolbwyntio ar gam-drin domestig a phobl hŷn
- Canolbwyntio ar gam-drin domestig a gofalwyr
- Gwerthusiad annibynnol o ddull MARAC o weithredu
- Gwerthusiad pellach o gyfiawnder adferol a rhaglenni tramgwyddwyr
- Gwerthuso rhaglenni mewn ysgolion a rhaglenni ataliol eraill
- Ymchwilio i lefelau isel parhaus dwyn cyhuddiad mewn achosion o gam-drin domestig

6.8.4 Roedd y Pwyllgor yn cefnogi argymhellion yr Athro Jonathan Shepherd o ran gwella sail tystiolaeth cam-drin domestig trwy gasglu data mewn ysbytai, ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

**Argymhelliad 27**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau erbyn mis Mai 2009:

- Bod gan holl Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru sydd ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys systemau gwybodaeth sy'n gallu nodi'r rheini sy'n mynychu drosodd a thro ac, yn benodol, y rheini sy'n mynychu drosodd a thro ac sydd wedi'u niweidio
- Dylai gweithredu ymarferol ddilyn casglu data sylfaenol, er enghraifft, trwy gael nyrs â chyfrifoldeb am ddadansoddi'r wybodaeth a gesglir i nodi dioddefwyr, ac yna cael gwasanaeth cymorth ac atgyfeirio at sefydliadau perthnasol

- Bod gweithgarwch treisiol domestig yn cael ei archwilio fel rhan o'r rhaglen dreigl o archwiliadau clinigol yn ymddiriedolaethau GIG sydd ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

Dylid cynnwys canlyniadau'r gwaith hwn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

**Monitro a gwerthuso gwasanaethau ac ymyriadau cam-drin domestig yn gadarn**

6.8.5 Siaradodd nifer o dystion am bwysigrwydd gallu dangos bod ymyriadau'n effeithiol yng nghyd-destun adnoddau ariannol cyfyngedig. Er enghraifft, dywed BAWSO yn eu tystiolaeth ysgrifenedig:

"Mae'n rhy hawdd adrodd am 'gynnydd da' a 'chyflawni canlyniadau' heb gyfeirio at arferion monitro a gwerthuso cadarn y gellir eu dilysu. Mae'n rhaid i gynnydd fod yn fesuradwy ac mae'n rhaid iddo fynd y tu hwnt i honni bod sefydlu menter newydd neu nifer o brosiectau newydd yn dystiolaeth o'u heffaith. Bydd monitro a gwerthuso cadarn yn galluogi rhoi sylw i wasanaethau nad ydynt yn effeithiol a bylchau mewn darpariaeth. Bydd hefyd yn cydbwyso honiadau o gynnydd a llwyddiant lle maent yn cael eu gor-ddweud neu lle nad oes sail iddynt. Mae'r dull presennol penderfynol o fynd ati i adolygu polisïau a phrosiectau'n gwbl gywir, a rhaid ei gynnal os yw priodoldeb ac ansawdd gwasanaethau i wella."

**Argymhelliad 28**

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgymryd â rhaglen ymchwil i ddarparu sail ar gyfer llunio gwasanaeth a chomisiynu arfer mewn nifer o feysydd lle na wnaed digon o ymchwil, gan gynnwys:

- Anghenion pobl hŷn y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt
- Anghenion gofalwyr y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt
- Anghenion iechyd rhywiol menywod y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt
- Gwerthusiad o raglenni tramgwyddwyr yn y gymuned ar gyfer y rhai sydd wedi cyflawni cam-drin domestig nad ydynt wedi'u collfarnu o drosedd
- Gwerthusiad o raglenni ataliol a rhaglenni codi ymwybyddiaeth sy'n targedu plant a phobl ifanc

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i nodi cyfleoedd i ymchwilio i lefelau dwyn cyhuddiad mewn achosion o gam-drin domestig, a gwerthuso'n annibynnol dull MARAC o weithredu. Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig.

## 7. Argymhellion

| | |
|---|---|
| **1** | Llywodraeth Cynulliad Cymru i adrodd ar gynnydd â rhoi adroddiad ymchwiliad cam-drin domestig y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar waith erbyn mis Mai 2009 ac, wedi hynny, cyhoeddi a chyflwyno gerbron y Cynulliad adroddiad blynyddol ar: effeithiolrwydd ei strategaeth; y cynnydd â'i chynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r Strategaeth ar waith; a sut mae'r Gweinidogion sy'n gyfrifol yng Nghymru'n gweithio gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ar ariannu darpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru.<br><br>Dylai'r adrodd gynnwys manylion ynglŷn â meysydd penodol a nodir yn argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant. |
| **2** | Dylai strategaeth cam-drin domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau pobl hŷn yn well trwy sicrhau bod cyhoeddiadau sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn ei gwneud yn eglur bod cam-drin domestig yn effeithio ar bobl hŷn, trwy, er enghraifft, eu modd o ddefnyddio delweddau. Y strategaeth ddiwygiedig i fod ar gael erbyn mis Mai 2009. |
| **3** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgymryd â gwaith i nodi buddiannau ac effaith bosibl estyn cwmpas ei strategaeth cam-drin domestig i gynnwys cam-drin pobl hŷn gan unrhyw un mewn cartrefi gofal, canolfannau dydd ac amgylcheddau rheoledig eraill.<br><br>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru adrodd ar ei chasgliadau'n seiliedig ar dystiolaeth i'r Pwyllgor erbyn mis Mai 2009. |
| **4** | Dylai strategaeth cam-drin domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r holl gyfarwyddyd cysylltiedig, ddatgan yn bendant bod cam-drin domestig yn tresmasu ar hawliau plant a phobl ifanc, a bod gan blant hawl i allu cyrchu cymorth a chefnogaeth ar ôl dioddef cam-drin domestig, sef hawl y manylir arni yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Y strategaeth ddiwygiedig i fod ar gael erbyn mis Mai 2009. |
| **5** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag awdurdodau lleol i werthuso i ba raddau mae'r llety camu ymlaen sydd ar gael, ac sy'n briodol i fenywod a theuluoedd sy'n gadael llochesau, yn diwallu'r angen.<br><br>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod yna strategaethau effeithiol ar waith i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth neu mewn llety camu ymlaen priodol. Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009, a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys hwn wedyn mewn adran ar wahân yn ei hadroddiad blynyddol ar gam-drin domestig. |
| **6** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynhyrchu cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau comisiynu, gan nodi ystod a safonau gwasanaethau y dylid eu darparu i ddiwallu anghenion pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, yn ystod yr ymyriad cynnar, yn ystod argyfwng, ac yn ystod yr ymyriad yn dilyn argyfwng. Dylai'r |

| | |
|---|---|
| | cyfarwyddyd gynnwys y mathau o wasanaeth sydd wedi'u nodi yn adran 6.2.4 uchod.<br><br>Dylid seilio'r cyfarwyddyd ar dystiolaeth, a dylai adlewyrchu gwahanol fathau a lefelau angen ymhlith pobl mewn gwahanol amgylchiadau. Dylai hefyd awgrymu'r hyn sy'n rhesymol o ran y cyfnod y dylai pobl orfod aros i gyrchu gwahanol wasanaethau. Y cyfarwyddyd i'w gyhoeddi erbyn mis Mai 2009. |
| **7** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynorthwyo mudiadau sydd am recriwtio gwirfoddolwyr trwy:<br><br>• gefnogi mudiadau cam-drin domestig i recriwtio a chadw gwirfoddolwyr, er enghraifft, trwy roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau recriwtio, a;<br>• rhoi cymorth ariannol ar gyfer hyfforddi gwirfoddolwyr y mae mudiadau'n eu recriwtio, os gall y mudiadau hynny ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad effeithiol at fynd i'r afael â cham-drin domestig yng Nghymru. Gall y rhain gynnwys mudiadau sy'n cynnig gwasanaethau cwnsela, cyngor a gwybodaeth a chynlluniau maethu anifeiliaid anwes.<br>• Nodi ffyrdd eraill i hybu gwasanaethau y mae'r mudiadau hyn yn eu darparu.<br><br>Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar waith yn y maes hwn erbyn mis Mai 2009, a Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnwys hwn wedyn mewn adran ar wahân yn ei hadroddiad blynyddol ar gam-drin domestig. |
| **8** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'i phartneriaid i gynhyrchu cynllun gweithredu sy'n manylu ar sut bydd ei Strategaeth cam-drin domestig yn cael ei rhoi ar waith. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys cerrig milltir cyflenwi allweddol, a dylai fanylu'n benodol ar sut bydd y Strategaeth yn cefnogi pobl o'r grwpiau a ganlyn y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt:<br><br>• Menywod<br>• Plant a phobl ifanc<br>• Dynion<br>• Pobl hŷn<br>• Pobl o gefndiroedd neu gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig neu gefndiroedd neu gymunedau ffydd, gan gynnwys menywod nad yw cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt<br>• Pobl anabl<br>• Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol<br>• Gofalwyr<br>• Pobl ag anghenion cymhleth, gan gynnwys y rheini â phroblemau iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau, y mae angen gwasanaethau arbenigol arnynt, megis cymorth 24 awr mewn lloches<br>• Pobl mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys ystyried materion yn ymwneud â chludiant gwledig wrth benderfynu ar ariannu<br>• Siaradwyr Cymraeg |

| | |
|---|---|
| | Dylid datblygu'r cynllun gweithredu gan gynnwys pobl o'r grwpiau a nodir uchod wrth ei lunio, a sicrhau ei fod yn eiddo i'r cyhoedd. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor ar y cynllun gweithredu erbyn mis Mai 2009, ac wedi hynny cynnwys hwn mewn adran ar wahân yn ei hadroddiad blynyddol ar gam-drin domestig. |
| **9** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn cael eu diwallu. Yn anad dim, dylai sicrhau:<br><br>• Bod gweithwyr arbenigol yn cefnogi'r holl blant a phobl ifanc mewn llochesau<br>• Bod gweithwyr arbenigol yn parhau i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n symud ymlaen o ddarpariaeth lloches<br>• Y dylai gwasanaethau cwnsela, therapiwteg, iechyd meddwl, cyngor ac eiriolaeth sy'n oedran briodol fod ar gael yn amserol i'r holl blant a phobl ifanc y mae sefydliadau'n gwybod bod cam-drin domestig wedi effeithio arnynt, neu sy'n datgelu bod cam-drin domestig wedi effeithio arnynt<br>• Bod darpariaeth ar gyfer dynion ifanc rhwng 14 a 18 oed iddynt allu aros gyda'i mam neu ofalwr arall pan mae angen iddynt adael cartref y teulu o ganlyniad i gam-drin domestig<br>• Bod darpariaeth ar gyfer menywod ifanc dan 18 oed sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig gan eu partner eu hunain<br>• Bod darpariaeth ar gyfer plant anabl neu blant rhiant anabl y mae angen iddi/iddo adael ei gartref/ei chartref ar frys. Mae angen mynd i'r afael â hygyrchedd corfforol llochesau, a sicrhau bod modd aildrefnu pecynnau gofal yn gyflym ar ôl symud.<br><br>Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009, ac wedi hynny cynnwys hwn mewn adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **10** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda CAFCASS a mudiadau perthnasol y sector gwirfoddol i:<br><br>• nodi achosion lle mae plant wedi'u cam-drin yn ystod ymweliadau cyswllt, neu lle mae mamau wedi'u cam-drin o ganlyniad i drefniadau cyswllt<br>• cymryd camau i sicrhau bod plant a menywod sy'n gysylltiedig â threfniadau cyswllt yn y dyfodol mewn cyn lleied o berygl â phosibl.<br><br>Dylid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor erbyn mis Mai 2009 sy'n rhoi crynodeb o gynnydd. |
| **11** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu ymateb mwy cydlynol, â mwy o adnoddau, i anghenion menywod nad yw cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt (NRPF) dan reolau Mewnfudo'r Swyddfa Gartref, a gofyn i Lywodraeth y DU newid rheolau NRPF. Hyd nes bydd rheolau NRPF yn cael eu newid, dylai: |

| | |
|---|---|
| | • Nodi ffyrdd i godi ymwybyddiaeth o'r 'rheol trais domestig' a'i gyfathrebu mewn gwybodaeth a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig<br>• Monitro'r amser mae'n ei gymryd i'r Swyddfa Gartref farnu penderfyniadau dan y rheol cam-drin domestig yng Nghymru i asesu'r gost sy'n ymwneud ag NRPF<br>• Ystyried fformwla ar gyfer cymorth i gyrff sy'n cefnogi menywod NRPF<br>• Ystyried comisiynu ymchwil i fonitro mynychder menywod NRPF dros y ddwy flynedd nesaf, a'r ymateb iddynt<br>• Sicrhau yr ystyrir menywod NRPF yn flaenoriaeth i wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fel ei gilydd mewn trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol.<br><br>Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn mewn adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **12** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau ariannu ar gyfer prosiect peilot 'Mynediad at Gyfiawnder' i ganolbwyntio ar dystion hŷn agored i niwed.<br><br>Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar yr argymhelliad hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **13** | Llywodraeth Cynulliad Cymru i arwain yn y gwaith o sbarduno trafodaeth gyhoeddus ar y 'contract cymdeithasol' a'r hyn y mae'n rhesymol ei ddisgwyl oddi wrth ofalwyr yng Nghymru. Dylid ystyried anghenion gofalwyr yn arbennig wrth roi argymhellion 6, 8 a 9 yr adroddiad hwn ar waith.<br><br>Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar yr argymhelliad hwn erbyn mis Mai 2009. |
| **14** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ariannu gwaith i werthuso gwaith ataliol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gyda phlant mewn ysgolion ac mewn amgylcheddau addysgol eraill ledled Cymru. Dylid cwblhau'r ymchwil hon fel mater o frys. Ar sail ei darganfyddiadau, Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi cyfarwyddyd i ysgolion a sefydliadau gwirfoddol a statudol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a'r cyfarwyddyd hwnnw i fanylu ar gydrannau allweddol rhaglen atal effeithiol. Y cyfarwyddyd i'w gyhoeddi erbyn mis Mai 2009. Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi mecanwaith ar waith i fonitro gweithredu'r cyfarwyddyd.<br><br>Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn mewn adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **15** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ariannu gwaith i werthuso:<br><br>• pa wasanaethau cymorth sydd ar gael i blant sy'n datgelu cam-drin domestig o ganlyniad i waith ataliol mewn ysgolion ac amgylcheddau ieuenctid, a,<br>• digonolrwydd trefniadau presennol ar gyfer hyfforddi athrawon a |

| | |
|---|---|
| | gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn enwedig o ran trin datgeliadau cam-drin domestig.<br><br>Nod yr ymchwil hon fydd nodi bylchau mewn darpariaeth, dwyn sylw at arfer gorau i'w rannu ledled Cymru, a nodi lle mae angen ariannu neu gymorth ychwanegol i alluogi darparwyr sector statudol a gwirfoddol i gydweithio i gyflenwi gwasanaeth cymorth yn gyson.<br><br>Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **16** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda chyrff sy'n bartneriaid i ddatblygu strategaeth wybodaeth genedlaethol i gefnogi rhoi'r strategaeth cam-drin domestig ar waith. Dylai'r strategaeth:<br><br>• Gefnogi rhoi polisïau gweithle ar waith mewn sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru<br>• Nodi ffyrdd y gellir rhoi cyhoeddusrwydd effeithiol i'r mathau a ganlyn o wybodaeth:<br>• Manylion gwasanaethau cymorth sydd ar gael i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt<br>• Cyngor ar ffynonellau cyngor cyfreithiol<br>• Deunyddiau sy'n herio agweddau ynglŷn â derbynioldeb trais a chamdriniaeth a mythau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.<br><br>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff sy'n bartneriaid iddi gynnwys cynrychiolwyr grwpiau penodol, er enghraifft, y rheini o gymunedau neu gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, i sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch, o ran yr iaith neu'r ffurf y mae'n cael ei chynhyrchu ynddi ac o ran y lleoedd y mae'n cael cyhoeddusrwydd, a'i bod yn briodol i bob grŵp targed.<br><br>Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **17** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu adroddiad Gweinidogion ar y cyd i'r Pwyllgor ar y trefniadau presennol i sicrhau bod gweithwyr yn yr amgylcheddau a ganlyn yn gallu nodi a chefnogi pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt (yn achos darpariaeth gwasanaethau uniongyrchol ac yn achos eu hatgyfeirio neu eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol):<br><br>• Amgylcheddau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd<br>• Adrannau tai awdurdodau lleol a landlordiaid tai cymdeithasol<br>• Ysgolion ac amgylcheddau addysg ac ieuenctid eraill<br>• Llysoedd teulu<br>• Adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol |

| | |
|---|---|
| | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd drafod â Llywodraeth y DU i nodi trefniadau ar gyfer hyfforddi swyddogion yr heddlu, ynadon a gweithwyr cyfiawnder troseddol eraill.<br><br>Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd erbyn mis Mai 2009 ar y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod staff sy'n gweithio yn y meysydd hyn yn gallu nodi anghenion pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, ac ymateb iddynt. Dylid cynnwys adroddiadau cynnydd pellach yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **18** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru werthuso argaeledd ac effeithiolrwydd rhaglenni tramgwyddwyr cymunedol y mae mudiadau'r sector gwirfoddol yn eu cyflenwi, ac sydd ar agor i rai sydd wedi cyfaddef eu bod yn cyflawni cam-drin domestig ond nad ydynt wedi'u collfarnu o unrhyw drosedd. Ar sail ei darganfyddiadau, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd i gomisiynwyr gwasanaethau sy'n nodi cydrannau arfer effeithiol ac sy'n gosod safonau gofynnol ar gyfer rhaglenni o'r fath.<br><br>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda chyrff sy'n bartneriaid iddi i sicrhau mai dim ond darparwyr gwasanaeth sy'n gallu bodloni'r safonau gofynnol, ac sy'n cyflenwi gwasanaeth effeithiol, sy'n cael eu hariannu i ddarparu gwasanaethau o'r fath.<br><br>Y gwerthusiad a'r cyfarwyddyd i'w cwblhau erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hyn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **19** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgymryd ag adolygiad o bob ffrwd ariannu a allai fod ar gael ar gyfer darparwyr statudol, darparwyr gwirfoddol a darparwyr eraill gwasanaethau i bobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, gan gynnwys Cefnogi Pobl, erbyn mis Mai 2009. Dylai'r adolygiad gynnwys asesu p'un a yw mecanweithiau ariannu posibl presennol yn hwyluso darparu'r ystod o wasanaethau sydd eu hangen i gefnogi pobl y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, yn ystod y cyfnodau ymyriad cynnar, argyfwng ac ôl-argyfwng. Dylai'r adolygiad hefyd asesu effaith mecanweithiau ariannu ar recriwtio a chadw staff i ddarparu'r gwasanaethau hynny.<br><br>Yna dylid cynnwys adroddiadau cynnydd pellach fel adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **20** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu ariannu craidd ar gyfer gwasanaethau allweddol i blant a phobl ifanc y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt, gan gynnwys:<br><br>• Gweithwyr plant a phobl ifanc mewn llochesau<br>• Gweithwyr allgymorth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi symud ymlaen o lety lloches<br>• Gwasanaeth cwnsela<br>• Eiriolaeth |

| | |
|---|---|
| | • Gwasanaethau iechyd meddwl (CAMHS)<br><br>Dylid sicrhau ariannu craidd cynaliadwy erbyn mis Mai 2009. |
| **21** | Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod argymhellion Ymchwiliad blaenorol y Pwyllgor i ariannu'r sector gwirfoddol yng Nghymru'n cael eu rhoi ar waith yn amserol, yn enwedig adolygu cynnydd ar argymhellion 8-14 sy'n ymwneud â darpariaeth ariannu hygyrch a chynaliadwy, ac adrodd ar yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant cyn gynted â phosibl ac erbyn mis Mai 2009 fan bellaf. Dylid cynnwys adroddiadau pellach yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **22** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag adrannau perthnasol Llywodraeth y DU fel mater o frys, i sicrhau bod yr holl bartneriaid allweddol sy'n ariannu Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, Llysoedd Sy'n Arbenigo Mewn Trais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn cael ariannu craidd, i'r graddau y bydd y gwasanaethau hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir. Dylid sicrhau ariannu cynaliadwy erbyn mis Mai 2009.<br><br>Yna dylid cynnwys cynnydd yn y maes hwn fel adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **23** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru werthuso effeithlonrwydd strwythurau cynllunio aml-asiantaeth a rôl y cydgysylltydd cam-drin domestig ym mhob cwr o Gymru o ran:<br><br>• Cynllunio a chomisiynu gwasanaethau;<br>• Rhannu gwybodaeth; a<br>• Rheoli risg<br><br>Yn benodol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru werthuso'r graddau y mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gweithredu fel cyfrwng effeithiol ar gyfer rhoi'r strategaeth ar waith yn lleol.<br><br>Dylid lledaenu darganfyddiadau'r gwerthusiad hwn i bob asiantaeth sy'n bartner, ynghyd â chyngor ar yr hyn sy'n gweithio, erbyn mis Mai 2009. Dylid cynnwys adroddiadau pellach fel adran ar wahân yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **24** | Llywodraeth Cynulliad Cymru i ofyn i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol:<br><br>• Ddangos yr hyn y maent yn ei wneud i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn eu hardal<br>• Darparu manylion yr adnoddau y mae pob partner statudol wedi'u neilltuo ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig<br>• Dangos sut bu dinasyddion a darparwyr gwasanaethau cam-drin domestig yn chwarae rhan mewn cynllunio gweithredu i fynd i'r afael â cham-drin domestig<br>• Dangos unrhyw waith gyda'r system cyfiawnder troseddol i gefnogi rhaglenni ymyriad cynnar a dwyn sylw at unrhyw rwystrau rhag gweithio'n effeithiol, yn |

| | |
|---|---|
| | enwedig o ran cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a chamddefnyddio sylweddau<br><br>Os na fydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cydymffurfio â'r cais, dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried sut gellid defnyddio pwerau ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol, sydd wedi'u cynnwys yn *Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998,* i wneud gweithredu o'r fath yn ofynnol i'r Partneriaethau.<br><br>Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **25** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod cynrychiolwyr uwch y gwasanaeth iechyd yn chwarae rhan lawn mewn ymdrechion aml-asiantaeth i fynd i'r afael â cham-drin domestig, yn enwedig trwy Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, gan nodi rhwystrau rhag cynnwys y GIG yn yr agenda cam-drin domestig, a helpu i'w goresgyn.<br><br>Er mwyn hwyluso hyn, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yn egluro goblygiadau deddfwriaeth diogelu data yn yr amgylchedd hwn. Dylid sicrhau bod y cyfarwyddyd hwn hefyd ar gael i gyrff meddygol a chyrff nyrsio. Y cyfarwyddyd i'w gyhoeddi erbyn mis Mai 2009. Dylid cynnwys adroddiadau pellach yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **26** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i nodi ffyrdd y gellid o bosibl defnyddio'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol a deddfwriaeth cydraddoldeb arall i fwrw ymlaen â chamau i fynd i'r afael â cham-drin domestig mewn cyrff cyhoeddus allweddol, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant erbyn mis Mai 2009. |
| **27** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau erbyn mis Mai 2009:<br><br>• Bod gan holl Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru sydd ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys systemau gwybodaeth sy'n gallu nodi'r rheini sy'n mynychu drosodd a thro ac, yn benodol, y rheini sy'n mynychu drosodd a thro ac sydd wedi'u niweidio<br>• Dylai gweithredu ymarferol ddilyn casglu data sylfaenol, er enghraifft, trwy gael nyrs â chyfrifoldeb am ddadansoddi'r wybodaeth a gesglir i nodi dioddefwyr, ac yna cael gwasanaeth cymorth ac atgyfeirio at sefydliadau perthnasol<br>• Bod gweithgarwch treisiol domestig yn cael ei archwilio fel rhan o'r rhaglen dreigl o archwiliadau clinigol yn ymddiriedolaethau GIG sydd ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys<br><br>Dylid cynnwys canlyniadau'r gwaith hwn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |
| **28** | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgymryd â rhaglen ymchwil i ddarparu sail ar gyfer llunio gwasanaeth a chomisiynu arfer mewn nifer o feysydd lle na wnaed |

| | |
|---|---|
| | digon o ymchwil, gan gynnwys:<br><br>• Anghenion pobl hŷn y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt<br>• Anghenion gofalwyr y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt<br>• Anghenion iechyd rhywiol menywod y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt<br>• Gwerthusiad o raglenni tramgwyddwyr yn y gymuned ar gyfer y rhai sydd wedi cyflawni cam-drin domestig nad ydynt wedi'u collfarnu o drosedd<br>• Gwerthusiad o raglenni ataliol a rhaglenni codi ymwybyddiaeth sy'n targedu plant a phobl ifanc<br><br>Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i nodi cyfleoedd i ymchwilio i lefelau dwyn cyhuddiad mewn achosion o gam-drin domestig, a gwerthuso'n annibynnol dull MARAC o weithredu. Y Pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd ar y gwaith hwn erbyn mis Mai 2009. Yna dylid cynnwys hwn yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gam-drin domestig. |

## Atodiad 1

**Sefydliadau ac unigolion a gyflwynodd dystiolaeth ar lafar i'r pwyllgor**

**16 Ebrill 2008**

| | |
|---|---|
| • Dr Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol<br>• Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog dros Dai<br>• Peter Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol<br>• Anna Slatter, Arweinydd Polisi, Y Gangen Afiechydon Difrifol<br>• Paul Webb, Pennaeth yr Uned Strategaeth a Gwasanaethau Tai | Llywodraeth Cynulliad Cymru |

**30 Ebrill 2008**

| | |
|---|---|
| • Jan Pickles, Cyfarwyddwr | Uned Diogelwch Menywod Caerdydd |
| • Morgan Fackrell, Prif Weithredwr<br>• Nesta Lloyd-Jones, Cydgysylltydd Materion Cyfreithiol<br>• Tamara Kendall, Rheolwr Datblygu a Gwybodaeth mewn Argyfwng | Cymorth i Fenywod Cymru |
| • Sam Jones, Cydgysylltydd Cam-drin Domestig | Fforwm Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin |

**7 Mai 2008**

| | |
|---|---|
| • Sophie Howe, Uwch Swyddog Gwleidyddol<br>• Jennifer Dunne, Swyddog Ymchwil a Rhagolwg | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |

**14 Mai 2008**

| | |
|---|---|
| • Andrew Edwards, Prif Gwnstabl dros dro Heddlu Dyfed Powys<br>• Owain Richards, Arolygydd dros dro Heddlu Dyfed Powys<br>• Rhiannon Hodges, Ditectif Uwcharolygydd Heddlu Gwent | Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru |
| • Yr Athro Jonathan Shepherd CBE | Ysbyty Prifysgol Cymru |

**5 Mehefin 2008**

| | |
|---|---|
| • Naz Malik, Prif Weithredwr<br>• Farhana Tegwen Malik, Rheolwr Gweithrediadau a Phrosiectau | Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA) |
| • Alihya Mohammed, Cyfarwyddwr dros dro | Y Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig |
| • Bronwen Malik, Uwch Gynghorydd Myfyrwyr | Prifysgol Fetropolitan Abertawe |
| • Libby Jones, Cyfarwyddwr | New Pathways |

**19 Mehefin 2008**

| | |
|---|---|
| • Cheryl Martin, Cydgysylltydd Cyflenwi Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc<br>• Claire Sharp, Rheolwr Gwasanaethau i Blant Cymorth i Fenywod Cymru | Cymorth i Fenywod Cymru |
| • Jon Trew | Cymorth i Ddioddefwyr |
| • Mutale Nyoni, Prif Weithredwr<br>• Angelina Jones, Cyfarwyddwr Cyflenwi Gwasanaethau<br>• Rakhshanda Shahzad, Rheolwr Cam-drin Domestig, De Cymru<br>• Samsunear Ali, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Corfforaethol<br>• Donna Powell, Gweithiwr Cymorth | Black Association of Women Step Out Ltd (BAWSO) |

**3 Gorffennaf 2008**

| | |
|---|---|
| • Christopher Woolley, Prif Erlynydd y Goron, De Cymru | Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru |
| • Ed Beltrami, Prif Erlynydd y Goron, Gwasanaeth Erlyn y Goron Gogledd Cymru<br>• Susan Duncombe, Erlynydd y Goron Rhanbarthol Cynorthwyol ar gyfer Uned Treialon Dwyrain Lloegr | Y Byrddau Cyfiawnder Troseddol |
| • Joy Kett, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, NSPCC Cymru<br>• Simon Jones, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus | NSPCC Cymru |
| • Cathy Davies, Prif Weithredwr | Cymdeithas Tai Hafan |

**17 Gorffennaf 2008**

| | |
|---|---|
| • Peter Hosking, Uwch Swyddog Polisi<br>• Elaine Richards, Swyddog Polisi | Comisiynydd Plant Cymru |
| • Marc Phillips, Pennaeth Plant mewn Angen Cymru | BBC Plant mewn Angen |
| • Adam Rees, Cydgysylltydd y Cynllun Dyn | Y Cynllun Dyn |

**24 Medi 2008**

| | |
|---|---|
| • Ruth Marks MBE | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| • Roz Williamson, Cyfarwyddwr | Gofalwyr Cymru |
| • Louise Hughes, Swyddog Prosiect Gogledd Cymru<br>• Richard Kynaston, Cydgysylltydd Eiriolaeth<br>• Sarah Stone, Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus | Age Concern Cymru |

**1 Hydref 2008**

| | |
|---|---|
| • Immy Lee, Cydgysylltydd Cam-drin Domestig | Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen |
| • Alison Shotbolt, Cydgysylltydd Cymunedau sy'n Gofalu, yr Uned Strategol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, Dinas a Sir Abertawe<br>• Amy Seddon, Gweithiwr Cam-drin Domestig, Plant a Phobl Ifanc | Prosiect Gwybodaeth am Gam-drin Domestig, Abertawe |

**22 Hydref 2008**

| | |
|---|---|
| • Julia Houlston-Clark, Cydgysylltydd Cyfiawnder Adferol, Carchar Caerdydd<br>• Karon Eyers, Cymorth i Ddioddefwyr Gwent | Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi– y Rhaglen SORI |
| • Sara Kovach-Clark, Pennaeth Polisi Teuluol | Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol |
| • Anne Haynes, Cyd-gyfarwyddwr | Sea Change Domestic Violence Training and Consultancy |

**Atodiad 2**

**Rhestr o Bapurau'r Pwyllgor**

| **Dyddiad** | **Enw'r Sefydliad** | **Rhif Cyfeirnod y Papur** | **Cyfeirnod Paragraff y Trawsgrifiad** |
|---|---|---|---|
| 16 Ebrill 2008 | Llywodraeth Cynulliad Cymru | CC(3)-06-08 (p1) | 7-133 |
| 30 Ebrill 2008 | Uned Diogelwch Menywod Caerdydd | CC(3)-07-08 (p1) | 2-49 |
| 30 Ebrill 2008 | Cymorth i Fenywod Cymru | CC(3)-07-08 (p2) | 50-124 |
| 30 Ebrill 2008 | Fforwm Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin | CC(3)-07-08 (p3) | 126-177 |
| 07 Mai 2008 | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | CC(3)-08-08 (p2a) & (p2b) | 144-184 |
| 14 Mai 2008 | Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru | CC(3)-09-08 (p1) | 2-94 |
| 14 Mai 2008 | Ysbyty Prifysgol Cymru | Ddim yn berthnasol | 95-148 |
| 05 Mehefin 2008 | Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan a'r Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig | CC(3)-10-08 (p1) | 6-116 |
| 05 Mehefin 2008 | New Pathways | CC(3)-10-08 (p2) | 118-185 |
| 19 Mehefin 2008 | Cymorth i Fenywod Cymru | CC(3)-11-08 (p1) | 4-61 |
| 19 Mehefin 2008 | Cymorth i Ddioddefwyr | CC(3)-11-08 (p2) | 65-106 |
| 19 Mehefin 2008 | Black Association of Women Step Out | CC(3)-11-08 (p3) | 107-185 |
| 03 Gorffennaf 2008 | Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru | CC(3)-13-08 (p1) | 10-101 |
| 03 Gorffennaf 2008 | Y Byrddau Cyfiawnder Troseddol | CC(3)-13-08 (p2) | 10-101 |
| 03 Gorffennaf 2008 | NSPCC Cymru | CC(3)-13-08 (p3) | 102-175 |
| 03 Gorffennaf 2008 | Cymdeithas Tai Hafan | CC(3)-13-08 (p4) | 176-243 |
| 17 Gorffennaf 2008 | Comisiynydd Plant Cymru | CC(3)-14-08 (p1) | 4-62 |
| 17 Gorffennaf 2008 | BBC Plant mewn Angen | CC(3)-14-08 (p2) | 64-91 |
| 17 Gorffennaf 2008 | Y Cynllun Dyn | CC(3)-14-08 (p3) | 92-132 |
| 24 Medi 2008 | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | CC(3)-15-08 (p1) | 4-62 |
| 24 Medi 2008 | Gofalwyr Cymru | CC(3)-15-08 (p2) | 63-108 |
| 24 Medi 2008 | Age Concern Cymru | CC(3)-15-08 (p3) | 109-188 |
| 01 Hydref 2008 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen | CC(3)-16-08 (p1) & (p1a) | 5-88 |
| 01 Hydref 2008 | Prosiect Gwybodaeth am Gam-drin Domestig, Abertawe | CC(3)-16-08 (p5) | 155-215 |
| 22 Hydref 2008 | Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi – y Rhaglen SORI | CC(3)-19-08 (p2) | 100-160 |
| 22 Hydref 2008 | Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol | CC(3)-19-08 (p3) | 161-201 |
| 22 Hydref 2008 | Sea Change Domestic Violence Training and Consultancy | CC(3)-19-08 (p4) & (p4a) | 202-234 |

**Ceir copïau o'r holl bapurau a'r trawsgrifiadau yn**
http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-ccc-home/bus-committees-third-ccc-agendas.htm

**Atodiad 3**

**Y rhai a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth ysgrifenedig**

**Y sector gwirfoddol**

- Cymorth i Fenywod Cymru - cyffredinol
- Cymorth i Fenywod Cymru – Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc
- Cymorth i Fenywod Delyn
- Cymorth i Fenywod Sir Faesyfed
- Cymorth i Fenywod Caerdydd
- Cymorth i Fenywod Aberteifi
- Cymorth i Fenywod Aberconwy
- Grŵp Cymorth i Fenywod Abertawe
- Cymorth i Fenywod Brycheiniog
- Cymorth i Fenywod y Rhyl a'r Cyffiniau
- Cymorth i Fenywod Dyffryn Lliw
- Yr Uned Diogelwch rhag Cam-drin Domestig (Cymorth i Fenywod Glannau Dyfrdwy yn flaenorol)
- Y Cynllun Dyn
- Cymdeithas Tai Hafan
- New Pathways
- Help the Aged
- Age Concern Cymru
- NCH Cymru
- NSPCC Cymru
- BBC Plant mewn Angen
- Comisiynydd Plant Cymru
- Triongl Cymru
- Black Association of Women Step Out
- Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan a'r Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig
- Cymorth i Ddioddefwyr
- RSPCA
- Amnest Rhyngwladol Cymru
- YWCA
- Relate

**Y Sector Statudol**

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog dros Dai
- Prosiect Gwybodaeth am Gam-drin Domestig, Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc, Adfywio Cymunedol, Abertawe
- Cydgysylltydd Cam-drin Domestig Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc Wrecsam
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf
- Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych
- Gwasanaeth Amddiffyn Plant Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau
- Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru
- Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
- Awdurdodau Heddlu Cymru
- Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cymru
- Gwasanaeth Erlyn y Goron

**Aml-asiantaeth**

- Uned Diogelwch Menywod Caerdydd
- Fforwm Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin
- Fforwm Cam-drin Domestig Powys
- Fforwm Cam-drin Domestig Castell-nedd Port Talbot
- Fforwm Cam-drin Domestig Ceredigion
- Fforwm Cam-drin Domestig Sir Fynwy
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Tor-faen a Fforwm Cam-drin Domestig Tor-faen
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Bwrdeistref Sirol Caerffili Saffach a Fforwm Cam-drin Domestig Caerffili
- Bwrdd Diogelu Plant Casnewydd
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn
- Y Byrddau Cyfiawnder Troseddol

**Eraill**

- Pat McCarthy – ymgyrchwr a goroeswr
- Ysbyty Prifysgol Cymru – yr Athro Jonathan Shepherd CBE
- Tamsin Stirling Associates Cyf
- Sea Change Domestic Violence Training and Consultancy
- Prifysgol Gorllewin Lloegr

Nodwch nad yw'r rhestr uchod yn cynnwys unrhyw sefydliadau nac unigolion a nododd nad ydynt am i'w manylion gael eu cyhoeddi.

## Atodiad 4

### Ymweliadau'r pwyllgor

**Yn ystod yr ymchwiliad, ymwelodd y pwyllgor â'r sefydliadau a ganlyn:**

- New Pathways
- Cymdeithas Tai Hafan
- NSPCC Cymru

**Ymweliadau rapporteur Mark Isherwood AC â:**

- Yr Uned Diogelwch rhag Cam-drin Domestig
- Cymorth i Fenywod Aberconwy
- Panel Cam-drin Domestig Cyngor Sir y Fflint
- Canolfan Gefnogaeth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru

## Atodiad 5

## Galwad am dystiolaeth

## Ymchwiliad y pwyllgor i gam-drin domestig

Mae'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant wedi dewis cynnal ymchwiliad i gam-drin domestig; ac mae'n galw ar y rheini sydd â diddordeb neu arbenigedd yn y maes hwn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

### Cefndir

Amcangyfrifir y bydd trais domestig yn effeithio ar 1 o bob 4 menyw ac 1 o bob 6 dyn yn ystod eu bywyd a bod tua 77% o'r dioddefwyr yn fenywod (Ffynhonnell: cyhoeddiad y Swyddfa Gartref *Crime in England and Wales 2006-07*). Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru strategaeth ar gam-drin domestig yn 2005. Mae cam-drin domestig yn cynnwys nid yn unig trais corfforol ond mae hefyd yn cynnwys, er enghraifft, cam-drin emosiynol ac ynysu pobl oddi wrth eu ffrindiau, teulu neu ffynonellau cymorth eraill posibl. Mae amrywiaeth o sefydliadau yn ariannu ac yn darparu gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig; Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Swyddfa Gartref a'r sector gwirfoddol.

### Cylch gorchwyl

Cynigir y dylai'r pwyllgor adolygu:

- y modd y caiff strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â cham-drin domestig ei chyflawni;
- y cymorth a ddarperir i'r sawl sy'n dioddef cam-drin domestig, gan gynnwys y cymorth a ddarperir i dystion yn y system cyfiawnder troseddol.
- yr adnoddau a ddyrennir gan gyrff perthnasol megis Llywodraeth y Cynulliad, y Swyddfa Gartref, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol i weithredu polisïau cam-drin domestig.
- yr ymyriadau gorfodol a gwirfoddol a ddarperir sydd wedi'u hanelu at y sawl sy'n cyflawni'r cam-drin domestig;, gan gynnwys yr arian a ddyrennir i gefnogi ymyriadau o'r fath
- cynlluniau sydd wedi'u hanelu at atal cam-drin domestig; er enghraifft, rhaglenni ysgolion a chynlluniau codi ymwybyddiaeth.

Bydd y pwyllgor hefyd yn:

- gwneud argymhellion o ran y camau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem o gam-drin domestig yng Nghymru.

### Rhai o'r materion i'w trafod yn ystod y sesiynau casglu tystiolaeth:

- y cymorth sydd ar gael ar gyfer grwpiau gwahanol a pha mor hawdd ydyw i gael gafael arno; gan gynnwys gwasanaethau cwnsela ar gyfer – dynion, menywod, plant, pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, pobl hŷn a phobl anabl;
- y gwasanaethau a ddarperir i oedolion a phlant sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol mewn sefyllfa ddomestig;

- ymateb gwahanol sectorau i gam-drin domestig, gan gynnwys y sector troseddol, ac asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- sut y caiff y strategaeth genedlaethol ei chyflawni ar lefel leol, y ffyrdd y mae cyrff ac asiantaethau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau'r ymateb gorau;
- dyrannu adnoddau i fynd i'r afael â cham-drin domestig ac unrhyw wrthdaro posibl rhwng nodau ac amcanion gwahanol ffynonellau ariannu;
- **tystiolaeth ystadegol am gyfraddau a natur cam-drin domestig, yn cynnwys achosion o lofruddio, cyfraddau collfarnu, tueddiadau daearyddol;**
- effaith ynysu sy'n cael ei ddwysáu gan ffactorau daearyddol, diwylliannol ac unigol;
- prosesau ar gyfer monitro a gwerthuso canlyniadau.

Gwahoddir unigolion sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i glerc y pwyllgor yn y cyfeiriad isod, i gyrraedd erbyn dydd Gwener 9 Mai 2008. Os yw'n bosibl, anfonwch fersiwn electronig drwy e-bost i'r cyfeiriad a ganlyn:
**Community.Culture.Comm@Wales.gsi.gov.uk**

Nodwch a fyddai diddordeb gennych mewn cyflwyno barn i'r pwyllgor ar lafar.

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, gall eich ymateb ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ychwanegol i adroddiad. Cewch eich enwi fel awdur y dystiolaeth, oni ofynnwch yn wahanol, er na fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth arall sy'n ddata personol yn ei farn ef.

Fodd bynnag, dylech fod yn ymwybodol, os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu er na chafodd ei chyhoeddi.

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, neu os nad ydych yn dymuno i'ch enw, fel awdur y dystiolaeth, gael ei ddatgelu, rhaid nodi hyn yn glir, ynghyd â'ch rhesymau dros atal y deunydd dan sylw. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

## Atodiad 6

## Rhestr o dermau

### Bwrdd Lleol Diogelu Plant

Y pwyllgor ardal amddiffyn plant yn flaenorol. Mae'r bwrdd lleol diogelu plant yn fforwm aml-asiantaeth statudol ar gyfer datblygu, monitro ac adolygu polisïau a gweithdrefnau lleol ar gyfer diogelu plant a chynnal adolygiadau achosion difrifol lle y bo angen.

### Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig

Mae eiriolwyr cam-drin domestig (a elwir yn gynghorwyr annibynnol ar drais domestig hefyd) yn arbenigwyr sydd wedi eu hyfforddi sydd â'r rôl o wella diogelwch pawb sy'n goroesi trais domestig, gan gynnwys plant. Maent yn canolbwyntio'n arbennig ar ddarparu gwasanaeth i oroeswyr y mae risg canolig i uchel y cânt eu niweidio. Maent yn gweithio'n uniongyrchol â goroeswyr i roi cyngor a chefnogaeth iddynt i'w helpu i wneud cynlluniau diogelwch ac i ddeall yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Maent yn cymryd rhan weithredol yn y cynadleddau asesu risg aml-asiantaeth.

### Y Gynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth

Nod y cynadleddau asesu risg aml-asiantaeth yw darparu fforwm ar gyfer rhannu gwybodaeth a chymryd camau a fydd yn lleihau'r niwed a wneir i ddioddefwyr y mae risg uchel iawn y cânt hwy a'u plant eu niweidio. Mae'r sefydliadau sydd wedi cytuno ar yr egwyddorion, y protocol a'r weithdrefn o rannu gwybodaeth yn cynnwys yr heddlu, sefydliadau iechyd, awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r sector gwirfoddol. Datblygwyd y system hon gan Uned Diogelwch Menywod Caerdydd ac aeth yn fyw yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2003. Ym mis Mawrth 2008, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref y byddai'r system ar gael i bob dioddefwr y mae risg uchel y bydd yn cael ei gam-drin yn ddomestig ledled y DU erbyn 2011.

### Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

Mae'r Swyddfa Gartref yn cydnabod bod y canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn fodel o arfer da o ran darparu gofal uniongyrchol i ddioddefwyr trais rhywiol difrifol. Mae'r canolfannau wedi cael eu dylunio i gynnig gwasanaeth integredig i unigolion sydd wedi dioddef troseddau rhywiol lle gallant gael gofal meddygol, cwnsela seicolegol, cyngor cyfreithiol a chyngor arall mewn un lle gan staff proffesiynol sydd wedi cael eu hyfforddi. Maent hefyd yn ceisio lliniaru ychydig ar y pwysau sydd ar adnoddau gwasanaeth yr heddlu drwy ddarparu adnoddau canolog lle gallant gwrdd â'r dioddefwr, cynnal archwiliadau fforensig a chasglu tystiolaeth. Mae 5 canolfan yng Nghymru ar hyn o bryd wedi eu lleoli yng Nghaerdydd, Caerfyrddin, Bae Colwyn, Merthyr Tudful, Rhisga ac Abertawe.

### Llysoedd sy'n arbenigo mewn trais domestig

O dan system y llysoedd sy'n arbenigo mewn trais domestig, mae cynghorwyr achrededig yn cynnig un pwynt cyswllt i ddioddefwyr yn ystod ac ar ôl yr achos; mae'r holl staff cyfiawnder troseddol a phob ynad yn cael eu hyfforddi ar drais domestig; mae'r rhai a gyflawnodd y trais yn cael eu gwahanu oddi wrth y dioddefwyr yn y llys; ac mae arferion rhestru penodol y llys yn cynyddu effeithiolrwydd y llys a'r gwasanaethau cymorth. Nod y llysoedd yw gwella ymatebion lleol i achosion o drais domestig a chynyddu nifer y troseddau hyn a erlynir yn llwyddiannus. Ar hyn o bryd, mae yna lys sy'n arbenigo mewn trais domestig yng Nghaerffili, Caerdydd, Sir y Fflint,

Castell-nedd ac Ogwr, Pontypridd, Sir Abertawe a Maelor Wrecsam gyda'r bwriad o agor llys arall yn y Barri.